CYNHADLEDD SAFONAU 2013

Venue Cymru
Llandudno
19 Ebrill 2013

(Tudalen Wag)

Cynhadledd Safonau 2013

"Cydbwyso Hawliau a Chyfrifoldebau"

Annwyl Gynadleddwr

Croeso!

Mae'n bleser gennyf estyn croeso cynnes iawn i chi i Landudno i Gynhadledd Safonau 2013. Cynhelir y gynhadledd eleni dan nawdd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru. Fforwm yw hon a sefydlwyd ddwy flynedd yn ôl, yn Ebrill 2011, i drafod materion o ddiddordeb cyffredin i'r pwyllgorau safonau. Trafodwyd awgrym o gynnal Cynhadledd Safonau yng Ngogledd Cymru yn ein cyfarfod cyntaf un a thyfodd y syniad gan arwain at y gynhadledd heddiw.

Hon fydd y seithfed gynhadledd safonau i'w chynnal yng Nghymru a'r gyntaf yn y gogledd. Gobeithiwn adeiladu ar lwyddiant gynadleddau'r gorffennol er mwyn symud yr agenda foesegol yn ei blaen.

Rydym wedi dewis "Cydbwyso Hawliau a Chyfrifoldebau" fel thema i'r gynhadledd eleni gan gredu fod hynny'n amserol yn y byd sydd ohoni ac mae rhaglen lawn wedi ei threfnu ar eich cyfer. Gobeithiaf yn fawr y byddwch yn cael budd o'r gynhadledd ac y byddwch hefyd yn cymryd y cyfle i fwynhau harddwch ac atyniadau'r ardal tra 'rydych yma.

Gyda dymuniadau gorau

Howie Roberts
Cadeirydd y Fforwm

(Tudalen Wag)

CYNHADLEDD SAFONAU 2013

"Cydbwyso Hawliau a Chyfrifoldebau"

10.00 – 10.30	Cofrestru a Tê/Coffi
10.30 – 10.45	Croeso a chyflwyno – Dilys Phillips. Cadeirydd ACSeS
10.45 – 11.30	Sesiwn lawn 1 – Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
11.30 – 11.45	Tê/Coffi
11.45 – 12.45	Sesiwn Gweithdy 1: 1A. Hyrwyddo safonau yn rhagweithiol 1B. Cynnal gwrandawiadau a chosbau 1C. Cofrestru buddiannau a gollyngiadau
12.45 – 13.45	Cinio.
13.45 – 14.30	Sesiwn lawn 2 – Trefn Datrys Leol Daniel Hurford, CLILC Rod Jones, Abertawe Paul Lucas / Guy Smith, RCT Dilys Phillips, Gwynedd
14.30 – 14.45	Tê/Coffi
14.45 – 15.45	Sesiwn Gweithdy 2: 2A. Hyrwyddo safonau yn rhagweithiol 2B. Cynnal gwrandawiadau a chosbau 2C. Safonau i gynghorau tref a chymuned ac awdurdodau pwrpas sengl
15.45 – 16.00	Sylwadau i gloi – Howie Roberts, Cadeirydd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

(Tudalen Wag)

CYNHADLEDD SAFONAU 2013

"CYDBWYSO HAWLIAU A CHYFRIFOLDEBAU"

Bywgraffiadau'r Siaradwyr

Lynn Ball
Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol & Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ynys Môn

Trevor Coxon, Cyfreithiwr LL.B Anrh.
Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Trevor yw Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Ef hefyd yw Swyddog Monitro penodedig y Cyngor. Mae wedi cymhwyso fel cyfreithiwr ac fe'i derbyniwyd i rôl cyfreithiwr ym mis Awst 1981. Mae wedi gweithio ym maes llywodraeth leol ers bron 34 o flynyddoedd, ac yn ei awdurdod blaenorol yn Lloegr, ef oedd y Dirprwy Brif Weithredwr. Mae wedi bod yn aelod gweithgar o Gymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr (ACSeS) yng Nghymru ac yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr yn ystod ei yrfa yn y wlad honno. Mae wedi bod yn Gadeirydd ac yn Ysgrifennydd yng Nghangen Cymru o ACSeS, ac ef erbyn hyn yw Trysorydd y gangen honno.

Daniel Hurford
Pennaeth Polisïau Gwella a Llywodraethu
Pennaeth Polisïau Gwella a Llywodraethu WLGA yw Daniel Hurford. Mae yn y swydd er mis Medi 2007. Mae Carfan Gwella a Llywodraethu WLGA yn helpu awdurdodau i wella'n gorfforaethol a datblygu cynghorwyr ac arweinyddion. Ar ben hynny, mae'n llywio gwaith WLGA ynglŷn â Rhaglen Gwella Cymru, llywodraethu corfforaethol a phartneriaethau. Mae Daniel yn gweithio ym maes polisïau corfforaethol er 2000 ac mae e wedi arwain Carfan Cyfathrebu WLGA, hefyd. Fe ddechreuodd ei yrfa ym myd llywodraeth leol yng Nghyngor Sir Powys ym 1996, gan weithio mewn prosiectau TG ar gyfer cymunedau a'r byd masnachol. Wedyn, treuliodd dair blynedd gyda Menter Powys (prosiect gynhaliodd cyngor y sir dan nawdd Undeb Ewrop) ym maes datblygu cymunedol ac economaidd. Mae ganddo radd 'Hanes Diweddar a Gwleidyddiaeth' o Brifysgol Llundain (Royal Holloway), Tystysgrif Ôl-raddedigion 'Datblygu Gwledig, Cymunedol ac Economaidd' o Brifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a gradd meistr 'Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru' o Brifysgol Aberystwyth. Mae Daniel yn briod gyda dau o blant ifanc, ac mae e'n hoffi rhedeg a gwylio rygbi (Sosban Fach...).

Delyth Jones
Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu & Swyddog Monitro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae Delyth yn Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu ac yn Swyddog Monitro yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac mae wedi bod yn y swydd ers mis Ebrill 2012. Cyn hynny bu'n Bennaeth ar y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ac yn Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (Masnachaol a Chyfreitha). Eiddo masnachol a phrosiectau datblygu yw ei chefndir ac mae ganddi ddiddordeb mewn cyfraith elusennol. Mae ei swydd fel Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu ac fel Swyddog Monitro wedi golygu bod ei hargaeledd ar gyfer gwaith y codir ffi amdano wedi lleihau ond mae'n parhau'n awyddus i gynorthwyo yn y meysydd hyn ble bo'n bosibl.

Iwan Jones
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Graddiodd Iwan Jones o Brifysgol Cymru Aberystwyth yn 1988 gyda gradd Anrhydedd LLB yn y Gyfraith. Treuliodd 10 mlynedd yn gweithio yn y sector preifat cyn symud i'r sector cyhoeddus i weithio yn yr Adran Gyfreithiol yng Nghyngor Gwynedd am gyfnod o dair blynedd. Ef oedd yn bennaf gyfrifol am faterion cynllunio. Yn 2004, symudodd Iwan i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i weithio fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'r swydd hon yn cynnwys cyfrifoldeb dros nifer o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau cyfreithiol. Gan hynny, fe'i penodwyd hefyd yn Swyddog Monitro'r Awdurdod.

Lisa Jones
Cyfreithiwr a Dirprwy Swyddog Monitro
Cyngor Sir Ddinbych

Mae Lisa yn gweithio fel cyfreithiwr a Dirprwy Swyddog Monitro yng Nghyngor Sir Ddinbych ac mae'n arbenigo mewn Cyfraith Gwybodaeth, Llywodraethu Corfforaethol, materion yn ymwneud â'r Aelodau a'r Cyfansoddiad a phrosiectau Masnachol a Chaffael. Mae ganddi bron 20 mlynedd o brofiad eang ac mae hefyd wedi gweithio i gwmni preifat yn cynghori Busnesau Bach a Chanolig, yn BUPA fel cynghorwr cyfreithiol mewnol ac yn y trydydd sector fel cyfreithiwr Tai, yn arbenigo yn y gyfraith gyhoeddus ac adolygiadau barnwrol. Yn ogystal â hyn, cafodd ei phenodi'n ddiweddar yn Swyddog Diogelu Data'r Cyngor.

Mae gan Lisa ddiddordeb arbennig yn yr agweddau cyfreithiol ar Breifatrwydd a Rhannu Gwybodaeth ac mae'n aelod o Fwrdd Newid WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru) Llywodraeth Cymru. Mae ganddi radd yn y Gyfraith gan Brifysgol Caerdydd a Diploma Ôl-radd mewn Cyfraith Gwybodaeth a bydd yn cwblhau ei Gradd Meistr yn y Gyfraith eleni. Mae hefyd yn Aelod Cysylltiol o'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheoli.

Rod Jones
Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol a Democrataidd a Chaffael a Dirprwy Swyddog Monitro Dinas a Chyngor Caerdydd

Rod yw Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol a Democrataidd a Chaffael a Dirprwy Swyddog Monitro Dinas a Chyngor Caerdydd. Symudodd i Abertawe i ymgymryd â'r un swydd yn 2007. Mae'n cynghori'r Pwyllgor Safonau yn Abertawe yn rheolaidd. Mae Rod hefyd yn rhedeg Grŵp Swyddogion Cyfreithiol Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r 22 Awdurdod yng Nghymru ac sy'n casglu gwybodaeth meincnodi am wasanaethau cyfreithiol.

Paul Lucas
Swyddog Monitro,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Paul yw Swyddog Monitro Rhondda Cynon Taf ers 1996 ac mae'n cynghori'r Pwyllgor safonau ers ei sefydlu yn 2001. Ar hyn o bryd, ef yw Ysgrifennydd Cangen Cymru o ACSeS sy'n trafod ac yn rhannu arfer da yn rheolaidd gyda Swyddogion Monitro i gynorthwyo'r Pwyllgorau Safonau i roi'r rhaglen foesegol ar waith. Paul hefyd yw Ysgrifennydd Consortiwm Prynu Cymru sy'n cynnwys 16 o'r 22 Cyngor Unedol yng Nghymru.

Gareth Owens
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd & Swyddog Monitro, Cyngor Sir y Fflint

Gareth yw Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint. Cymhwysodd fel bargyfreithiwr mewn siambrau yn Abertawe ugain mlynedd yn ôl, ac yna gweithiodd i nifer o gynghorau yn Lloegr. Bu Gareth yn rheoli amrywiaeth eang o wasanaethau ac fe'i penodwyd yn y pen draw yn gyd-gyfarwyddwr gweithredol cyngor dosbarth mawr yn Swydd Warwick.

Dychwelodd Gareth i Gymru ac ymunodd â Sir y Fflint y mis Ebrill 2012.

Dilys Phillips
Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol & Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd

Dilys yw Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd, ac mae hi yn y swydd hon ers 2003. Cyn hynny, roedd yn gweithio i'r Cyngor a'i ragflaenydd mewn amrywiol swyddi fel cyfreithiwr ac, yn ddiweddarach, fel Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae bron â chwblhau tymor o ddwy flynedd fel cadeirydd cangen Cymru o ACSeS , y corff proffesiynol sy'n cynrychioli Swyddogion Monitro ac sy'n gweithio'n agos gyda chyrff perthnasol (Ombwdsmon, CLILC, Llywodraeth Cymru) yn ymdrin â materion yn ymwneud â safonau yng Nghymru.

Stephen Phipps
Tîm Moeseg a Rheoleiddio, Llywodraeth Cymru

Stephen yw Pennaeth y Tîm Moeseg a Rheoleiddio yn Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys polisïau'n ymwneud â fframwaith moesegol llywodraeth leol, cynghorau tref a chymuned a rhai materion rheoleiddio penodol.

Guy Smith
Cadeirydd , Pwyllgor Safonau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Guy yw Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ers mis Rhagfyr 2012 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor ers mis Mehefin 2009. Mae wedi eistedd fel aelod o'r Panel ym mhob un o'r gwrandawiadau a gynhaliwyd i ystyried cwynion a wnaed o dan y 'Protocol Lleol – Safonau Ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau Etholedig'. Cyflogir Guy gan Brifysgol Caerdydd fel Uwch Archwilydd ac mae hefyd yn gweithio ym Mhrifysgol Abertawe. Mae hefyd yn llywodraethwr mewn dwy ysgol uwchradd yn Rhondda Cynon Taf, ac yn Aelod Bwrdd o Goleg Cymunedol YMCA Cymru.

Peter Tyndall
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Penodwyd Peter Tyndall i swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 21 Ebrill 2008. Fel Ombwdsmon, mae Peter yn ymchwilio i gwynion gan bobl sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder oherwydd bod Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y GIG, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gan gynnwys cymdeithasau tai, a chyrff cyhoeddus eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi bod yn gyfrifol am gamweinyddu neu o fethu darparu gwasanaeth priodol. Mae'r Ombwdsmon hefyd yn ymchwilio pan gyhuddir aelod o awdurdod lleol o beidio â chadw at god ymddygiad yr awdurdod.

Mae Peter wedi cwblhau tymor o ddwy flynedd fel cadeirydd Cymdeithas Ombwdsmon Prydain ac Iwerddon yn ddiweddar, ac mae'n aelod o'i Bwyllgor Dilysu ac yn aelod ex-officio o Bwyllgor Cymru o'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddu a Thribiwnlysoedd.

Peter oedd Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru rhwng 2001 a 2008 a chyn hynny ef oedd Pennaeth Addysg a Materion Diwylliannol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn ei swyddi blaenorol bu'n arwain a rheoli ym myd llywodraeth leol a'r sector annibynnol ym maes tai a gwasanaethau i bobl anabl.

Gary Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd & Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ddinbych

Gary yw Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yng Nghyngor Sir Ddinbych ac ef yw Swyddog Monitro statudol y Cyngor. Mae ganddo gyfrifoldeb dros wasanaethau cyfreithiol; gwasanaethau i'r pwyllgorau a'r aelodau; craffu; gwasanaethau etholiadol a'r gwasanaeth cofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau.

Ers cymhwyso fel cyfreithiwr dros 20 mlynedd yn ôl, mae Gary wedi cael profiad helaeth ym myd y gyfraith yn y sector cyhoeddus, gan iddo weithio i ddau o gynghorau sir eraill Cymru, a hefyd yn y sector preifat, a hynny ym maes y gyfraith droseddol a theuluol. Mae Gary yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Nodiadau



Dyfrffos Pontcysyllte

NODIADAU

Sleidiau a Deunyddiau ar Gyfer y Gweithdy

1A a 2A

Yr Wyddfa

(Tudalen Wag)

HYBU SAFONAU YN RHAGWEITHIOL
PROMOTING STANDARDS PROACTIVELY

Dilys Phillips,
Cyngor Gwynedd Council

Stephen Phipps,
Llywodraeth Cymru / Welsh Government

Y FFRAMWAITH GYFREITHIOL
THE LEGAL FRAMEWORK.

- Egwyddorion Nolan / *The Nolan principles.*
- Deddf Llywodraeth Leol 2000 / *Local Government Act 2000.*
- Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 / *The Standards Committees (Wales) Regulations 2001.*
- Cylch gorchwyl 'model' / *Model terms of reference.*

GWAITH Y PWYLLGOR SAFONAU
THE WORK OF THE STANDARDS COMMITTEE.

- Hyrwyddo a chynnal safonau uchel / *Promoting and maintaining high standards.*
- Cynorthwyo aelodau'r awdurdod / *Assisting members of the authority.*
- Monitro gweithrediad y Côd / *Monitoring the operation of the Code.*
- Cynghori a hyfforddi aelodau'r awdurdod/ *Advising and training members of the authority.*

BOD YN RHAGWEITHIOL
BEING PROACTIVE

- Cyfarfodydd hefo arweinyddion grŵp
  Meetings with group leaders
- Arsylwi ar bwyllgorau'r cyngor
  Observation of council meetings
- Monitro cwynion yn erbyn aelodau
  Monitoring complaints against members
- Adroddiad blynyddol i'r cyngor
  Annual report to council

BOD YN RHAGWEITHIOL
BEING PROACTIVE

- Hyfforddiant mandadol o'r côd ymddygiad
  Mandatory code of conduct training
- Defnydd cyfarwyddyd hawdd i'w ddeall
  User-friendly guidance materials
- Trosolwg o gofrestr buddiannau
  Oversight of register of interests
- Hyrwyddo cyhoeddus i waith y pwyllgor drwy newyddlen / *Public promotion of committee's work via newsletter*

BOD YN RHAGWEITHIOL
BEING PROACTIVE

- Protocol perthynas aelod/swyddog
  Member / officer relations protocol
- Cyfundrefn canu'r gloch
  Whistle blowing regime
- Adroddiadau camweinyddiaeth gan yr Ombwdsmon.
  Ombudsman maladministration reports
- Trin cwynion / cwynion trallodus
  Complaints handling / vexatious complaints

BOD YN RHAGWEITHIOL
BEING PROACTIVE

- Cofrestr rhoddion a lletygarwch
  Gifts and hospitality register
- Ceisiadau am wybodaeth gan aelodau
  Member requests for information
- Protocol TG aelodau
  Member IT protocol
- Monitro absenoldebau aelod
  Monitoring member non-attendance



GWAITH GRŴP / *GROUP DISCUSSION.*

- Tri prif syniad / *Three main ideas*

Sut i .....
Hyrwyddo, cynnal, cynorthwyo, monitro, cynghori, hyfforddi.

How to .....
Promote, maintain, assist, monitor, advise, train.



Sleidiau a Deunyddiau ar Gyfer y Gweithdy

1B & 2B



Abaty Valle Crucis, Sir Ddinbych

(Tudalen Wag)

Cynhadledd Safonau 2013

Gwrandawiadau a Sancsiynau

Standards Conference 2013

Hearings and Sanctions

Y Ddeddfwriaeth Berthnasol

- Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001

Relevant Legislation

- *Local Government Act 2000*
- *Local Government Investigations (Functions of Monitoring Officers and Standards Committees) (Wales) Regulations 2001*



Llwybrau at Wrandawiad

- Ymchwiliad Ombwdsmon
- Ymchwiliad Swyddog Monitro
- Gweithdrefn Benderfynu Leol

Routes to a Hearing

- *Ombudsman's investigation*
- *Monitoring Officer's investigation*
- *Local Resolution Procedure*



Pwerau a Dyletswyddau

- Bydd y Swyddog Monitro'n galw cyfarfod o'r Pwyllgorau Safonau cyn gynted â phosibl ar ôl llunio adroddiad ymchwiliad neu gael adroddiad ymchwiliad yr Ombwdsmon
- Rhoir gwybod am amser a lle'r cyfarfod yn unol â Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Powers and Duties

- *The Monitoring Officer will convene a meeting of the Standards Committee as soon as possible after producing an investigation report or receiving the Ombudsman's investigation report*
- *Notice of the time and place of the meeting will be given in accordance with Part VA Local Government Act 1972*



Pwerau a Dyletswyddau

- Ar ôl cael adroddiad gan y Swyddog Monitro neu'r Ombwdsmon ynghyd ag unrhyw argymhellion gan y Swyddog Monitro, rhaid i'r Pwyllgor wneud penderfyniad cychwynnol naill ai:

- Nad oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, **neu**
- Y dylid rhoi'r cyfle i unrhyw unigolyn sy'n destun yr ymchwiliad wneud sylwadau naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig

Powers and Duties

- *After receiving a report from the Monitoring Officer or the Ombudsman together with any recommendations from the Monitoring Officer the Committee must make an initial determination either:*

- *That there is no evidence of any failure to comply with the Code of Conduct, **or***
- *That any person who is the subject of the investigation should be given the opportunity to make representations either orally or in writing*



Pwerau a Dyletswyddau

- Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu nad oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Cod, rhaid iddo roi gwybod i'r unigolyn sy'n destun yr ymchwiliad, i'r Ombwdsmon ac i'r sawl a wnaeth yr honiad
- Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu y dylai unrhyw unigolyn sy'n destun yr ymchwiliad gael y cyfle i wneud sylwadau, y Pwyllgor Safonau a fydd yn penderfynu ar yr arfer a'r drefn o wneud hynny

Powers and Duties

- *Where the Committee determines that there is no evidence of any failure to comply with the Code it must notify the person subject to the investigation, the Ombudsman and the person who made the allegation*
- *Where the Committee determines that any person who is the subject of the investigation should be given the opportunity to make representations, the practice and procedure for doing so shall be for the Standards Committee to determine*



Pwerau a Dyletswyddau

- Rhaid i'r Pwyllgor roi'r cyfle i'r unigolyn sy'n destun yr ymchwiliad wneud sylwadau naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig
- Ni all y pwyllgor fynnu bod yr unigolyn sy'n destun yr ymchwiliad yn ymddangos ger ei fron nac yn gwneud sylwadau

Powers and Duties

- *The Committee must give the person the subject of the investigation the opportunity to make representations either orally or in writing*
- *The committee cannot require the person the subject of the investigation to appear before it or to make representations*



Pwerau a Dyletswyddau

- Gall y pwyllgor fynnu bod y swyddog ymchwilio'n ymddangos ger ei fron pan fydd yn ystyried sylwadau'r unigolyn sy'n destun ymchwiliad
- Os na fydd y sawl sy'n destun yr ymchwiliad yn gwneud sylwadau, gall y pwyllgor fynnu bod y swyddog ymchwilio'n cyflwyno ei adroddiad neu'n egluro unrhyw faterion sydd ynddo
- Diffinnir y swyddog ymchwilio naill ai fel y sawl a gynhaliodd yr ymchwiliad ar ran yr Ombwdsmon, neu'r Swyddog Monitro os cyfeiriwyd y mater ato ef/ati hi i ymchwilio iddo

Powers and Duties

- *The committee can require the investigating officer to appear before it when they are considering the representations of the person under investigation*
- *If the person the subject of the investigation does not make representations the committee can require the investigating officer to present his or her report or explain any matters contained in it*
- *The investigating officer is defined either as the person who undertook the investigation on behalf of the Ombudsman, or the Monitoring officer if the matter was referred to him or her for investigation*



Pwerau a Dyletswyddau

- Os bydd y sawl sy'n destun yr ymchwiliad yn methu â gwneud sylwadau, caiff y Pwyllgor, heblaw ei fod yn fodlon bod rheswm digonol dros y methiant, barhau i wneud penderfyniad yn absenoldeb y sawl hwnnw,

  neu
- Roi cyfle pellach i'r unigolyn wneud sylwadau



Powers and Duties

- *If the person the subject of the investigation fails to make representations, the Committee may, unless it is satisfied that there is sufficient reason for the failure, continue to make a determination in that person's absence, or*
- *Give the person a further opportunity to make representations*

Cynghorwr i'r Pwyllgor

- Os caiff adroddiad yr ymchwiliad ei lunio gan yr Ombwdsmon, bydd y Swyddog Monitro'n cynghori'r Pwyllgor
- Os caiff adroddiad yr ymchwiliad ei lunio gan y Swyddog Monitro, bydd unigolyn cymwysedig addas arall yn cynghori'r Pwyllgor

Advisor to the Committee

- *If the investigation report is produced by the Ombudsman, the Monitoring Officer will advise the Committee*
- *If the investigation report is produced by the Monitoring officer then some other suitably qualified person will advise the Committee*



Cynrychiolaeth

- Caiff unigolyn sy'n gwneud sylwadau ar lafar i'r Pwyllgor ymddangos yn bersonol neu gael ei gynrychioli gan gwnsler, cyfreithiwr neu unrhyw unigolyn arall

Representation

- *A person who makes oral representations to the Committee may appear in person or may be represented by counsel, a solicitor or any other person*



Gweithdrefn

- Lluniwyd fformat cyffredin gan Gyngor Sir Ceredigion yn 2010 i ymdrin â honiadau
- Mae hwn yn ymdrin ag adroddiadau ymchwiliadau'r Ombwdsmon ac ymchwiliadau Swyddog Monitro a gyfeirir at y Pwyllgor Safonau

Procedure

- *A common format for dealing with allegations was produced by Ceredigion County Council in 2010*
- *This deals with reports of both Ombudsman and Monitoring Officer investigations referred to the Standards Committee*



Paratoi at y Gwrandawiad

- Ysgrifennu at yr Aelod sy'n destun yr ymchwiliad i gynnig dyddiad ar gyfer y gwrandawiad
- Mae Ceredigion wedi llunio holiadur sy'n gofyn am yr wybodaeth sy'n ofynnol i baratoi at y gwrandawiad
- Mae'r holiadur yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol
- A ydy'r Aelod yn gallu dod ar y dyddiad a gynigir?
- A ydy'r Aelod yn cynnig gwneud sylwadau ar lafar neu'n ysgrifenedig?
- Os bydd y sylwadau'n rhai ysgrifenedig, a ellir eu cynnwys yn yr ymateb?
- A ydy'r Aelod yn anghytuno ag unrhyw un o'r canfyddiadau ffeithiol yn adroddiad yr ymchwiliad ac, os felly, pa rai a pham?

Preparing for the Hearing

- *Write to the Member who is the subject of the investigation with a proposed date for the hearing*
- *Ceredigion have produced a questionnaire that asks for the information required to prepare for the hearing*
- *The questionnaire asks for the following information*
- *Is the Member able to attend on the proposed date?*
- *Does the Member propose to make representations orally or in writing?*
- *If representations be in writing can they be included in the response?*
- *Does the Member disagree with any of the findings of fact in the investigation report, and, if so, which ones and why?*



Paratoi at y Gwrandawiad

- A hoffai'r Aelod ymddangos yn bersonol neu gael ei gynrychioli naill ai gan gwnsler, cyfreithiwr neu unigolyn arall?
- A hoffai'r Aelod roi tystiolaeth, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig?
- A hoffai'r Aelod alw tystion perthnasol?
- A hoffai'r Aelod i unrhyw ran o'r gwrandawiad gael ei chynnal yn breifat? Os felly, pam?
- A hoffai'r Aelod i unrhyw ran o adroddiad yr ymchwiliad neu ddogfennau perthnasol eraill gael ei chadw rhag y cyhoedd? Os felly, pam?

Preparing for the Hearing

- *Does the Member want to appear in person or be represented either by counsel, solicitor or other person?*
- *Does the Member want to give evidence, either orally or in writing?*
- *Does the Member want to call relevant witnesses?*
- *Does the Member want any part of the hearing to be held in private? If so, why?*
- *Does the Member want any part of the investigation report or other relevant documents to be withheld from the public? If so, why?*



Paratoi at y Gwrandawiad

- Rhoi gwybod i'r Swyddog Ymchwilio am ddyddiad ac amser arfaethedig y gwrandawiad a holi a ydy'n bwriadu dod
- Anfon copi o ymateb yr Aelod at y Swyddog Ymchwilio a gofyn y cwestiynau canlynol
- A oes gan y Swyddog Ymchwilio unrhyw sylwadau am ymateb yr Aelod?
- A hoffai'r Swyddog Ymchwilio gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad?
- A hoffai'r Swyddog Ymchwilio alw tystion perthnasol?
- A hoffai'r Swyddog Ymchwilio i unrhyw ran o'r gwrandawiad gael ei chynnal yn breifat? Os felly, pam?
- A hoffai'r Swyddog Ymchwilio i unrhyw ran o adroddiad yr ymchwiliad neu ddogfennaeth arall gael ei chadw rhag y cyhoedd? Os felly, pam?

Preparing for the Hearing

- *Notify the Investigating Officer of the proposed date and time of the hearing and ask if he/she intends to attend*
- *Send a copy of the Member's response to the Investigating Officer and ask the following questions*
- *Does the Investigating officer have any comments on the Member's response?*
- *Does the Investigating officer want to be represented at the hearing?*
- *Does the Investigating officer want to call relevant witnesses?*
- *Does the investigating officer want any part of the hearing held in private? If so, why?*
- *Does the Investigating Officer want any part of the investigation report or other documentation to be withheld from the public? If so, why?*



Paratoi at y Gwrandawiad

- O leiaf pythefnos cyn y gwrandawiad, ysgrifennu at y Pwyllgor, at yr Aelod ac at y Swyddog Ymchwilio
- Cadarnhau dyddiad, amser a lle i'r gwrandawiad
- Crynhoi'r honiad
- Amlinellu'r prif ffeithiau y cytunwyd arnynt
- Amlinellu'r prif ffeithiau nas cytunwyd arnynt
- Sylwi a ydy'r naill barti neu'r llall neu'r ddau barti am gael eu cynrychioli
- Rhestru'r tystion hynny, os o gwbl, sydd i'w galw i roi tystiolaeth
- Atodi adroddiad yr ymchwiliad, unrhyw ddogfennau perthnasol, ymateb yr aelod ac unrhyw ymateb pellach gan y Swyddog Ymchwilio
- Amlinellu'r weithdrefn arfaethedig ar gyfer y gwrandawiad

Preparing for the Hearing

- *At least two weeks before the hearing write to the Committee, the Member and the Investigating Officer*
- *Confirm date, time and place for the hearing*
- *Summarise the allegation*
- *Outline the main facts that are agreed*
- *Outline the main facts that are not agreed*
- *Note whether either or both of the parties are to be represented*
- *List those witnesses, if any, that are to be called to give evidence*
- *Enclose the investigation report, any relevant documents, the member's response and any further response from the Investigating Officer*
- *Outline the proposed procedure for the hearing*



Y Gwrandawiad – Cam 1

- Mae'r Cadeirydd yn cyflwyno'r rheini sy'n bresennol ac yn egluro trefn a dull yr achos
- Datrys unrhyw faterion neu anghytundebau ynghylch y ffordd y dylai'r gwrandawiad barhau sydd heb eu datrys yn ystod y broses cyn y gwrandawiad

The Hearing – Stage 1

- *Chair to introduce those present and explain the order and manner of the proceedings*
- *Resolve any issues or disagreements about how the hearing should continue which have not been resolved during the pre-hearing process*



Y Gwrandawiad – Cam 2

- Canfyddiadau ffeithiol – a oes unrhyw anghytuno sylweddol am y ffeithiau yn adroddiad yr ymchwiliad?
- Os oes anghytuno am y ffeithiau, bydd y Swyddog Ymchwilio'n cael ei wahodd i wneud unrhyw sylwadau angenrheidiol i gefnogi'r canfyddiadau ffeithiol perthnasol yn adroddiad yr ymchwiliad.
- Caiff y Swyddog Ymchwilio alw tystion i roi tystiolaeth.
- Bydd y Pwyllgor yn rhoi cyfle i'r Aelod herio unrhyw dystiolaeth a gyflwynir gan unrhyw dyst a alwyd gan y Swyddog Ymchwilio.
- Bydd yr Aelod yn cael ei wahodd wedyn i wneud sylwadau i gefnogi ei fersiwn ef/hi o'r ffeithiau.
- Caiff yr Aelod alw tystion i roi tystiolaeth.
- Bydd y Pwyllgor yn rhoi cyfle i'r Swyddog Ymchwilio herio unrhyw dystiolaeth a gyflwynir gan unrhyw dyst a alwyd gan yr Aelod.
- Ar unrhyw adeg, caiff y Pwyllgor holi unrhyw un o'r bobl dan sylw neu eu tystion
- Ar ddiwedd y sylwadau am faterion ffeithiol, bydd y Pwyllgor yn cilio i drafod y sylwadau'n breifat, ac yna bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau ffeithiol.

The Hearing – Stage 2

- *Findings of fact – are there any significant disagreements about the facts contained in the investigation report*
- *If there is a disagreement as to the facts the Investigating Officer will be invited to make any necessary representations to support the relevant findings of fact in the investigation report.*
- *The Investigating Officer may call witnesses to give evidence.*
- *The Committee shall give the Member an opportunity to challenge any evidence put forward by any witness called by the Investigating Officer*
- *The Member will then be invited to make representations to support his or her version of the facts.*
- *The Member may call witnesses to give evidence.*
- *The Committee shall give the Investigating Officer an opportunity to challenge any evidence put forward by any witness called by the Member*
- *The Committee may at any time question any of the people involved or their witnesses*
- *At the conclusion of the representations as to matters of fact, the Committee will retire to deliberate in private on the representations, after which the Chair will announce their findings of fact*



Y Gwrandawiad – Cam 2

- Os bydd yr Aelod yn anghytuno ag unrhyw ffaith berthnasol yn adroddiad yr ymchwiliad, heb iddo roi gwybod ymlaen llaw am yr anghytundeb, rhaid iddo/iddi roi rhesymau da dros beidio â sôn amdano cyn y gwrandawiad.
- Wedyn, caiff y Pwyllgor naill ai:
- barhau â'r gwrandawiad, gan ddibynnu ar yr wybodaeth yn adroddiad yr ymchwiliad
- caniatáu i'r Aelod wneud sylwadau am y mater, a gwahodd y Swyddog Ymchwilio i ymateb a galw unrhyw dystion, yn ôl yr angen; neu
- ohirio'r gwrandawiad i drefnu cael tystion priodol yn bresennol, neu drefnu bod y Swyddog Ymchwilio'n bresennol os nad yw eisoes yn bresennol



The Hearing – Stage 2

- *If the Member disagrees with any relevant fact in the investigation report, without having given prior notice of the disagreement, he or she must give good reasons for not mentioning it before the hearing.*
- *The Committee may then either:*
- *continue with the hearing, relying on the information in the investigation report*
- *allow the Member to make representations about the issue, and invite the Investigating Officer to respond and call any witnesses, as necessary; or*
- *postpone the hearing to arrange for appropriate witnesses to be present, or for the Investigating Officer to be present if he or she is not already*

Y Gwrandawiad – Cam 3

- Bydd y Pwyllgor yn ystyried wedyn, yn seiliedig ar y ffeithiau a ganfu, a ydy'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod.
- Bydd y Pwyllgor yn gwahodd y Swyddog Ymchwilio i wneud sylwadau, yn seiliedig ar y ffeithiau a ganfu'r Pwyllgor, ynghylch a ydy'r Aelod wedi methu ai peidio â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.
- Bydd y Pwyllgor Safonau'n gwahodd yr Aelod i ymateb a gwneud sylwadau, yn seiliedig ar y ffeithiau a ganfu'r Pwyllgor, ynghylch a yw wedi methu ai peidio â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.
- Ar unrhyw adeg, caiff y Pwyllgor Safonau holi unrhyw un dan sylw am unrhyw bwynt a godir ganddo yn ei sylwadau.
- Bydd yr Aelod yn cael ei wahodd i wneud unrhyw bwyntiau perthnasol terfynol.
- Bydd y Pwyllgor yn cilio i drafod y sylwadau'n breifat ac yn penderfynu a ydy'r Aelod wedi methu ai peidio â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ac yna bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n cyhoeddi ei ganfyddiadau.

The Hearing – Stage 3

- *The Committee will then consider whether, based on the facts it has found, the Member has failed to comply with the Code.*
- *The Committee will invite the Investigating Officer to make representations as to whether or not, based on the facts the Committee has found, the Member has failed to comply with the Code of Conduct.*
- *The Standards Committee will invite the Member to respond and make representations as to whether or not, based on the facts the Committee has found, he or she has failed to comply with the Code of Conduct.*
- *The Standards Committee may, at any time, question anyone involved on any point they raise in their representations.*
- *The Member will be invited to make any final relevant points.*
- *The Committee will retire to deliberate in private on the representations and decide whether or not the Member has failed to comply with the Code of Conduct, after which the Chair of the Standards Committee will announce their findings.*



Y Gwrandawiad – Cam 4

- Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu nad yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, bydd yn cofnodi'n ffurfiol nad oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw fethiant gan yr Aelod i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac felly nad oes angen cymryd unrhyw gamau.
- Os bydd y Pwyllgor Safonau'n penderfynu bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, bydd yn gwahodd yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio i wneud sylwadau o ran:
- a ddylai'r Pwyllgor osod sancsiwn ai peidio; a
- pha ffurf y dylai unrhyw sancsiwn ei chymryd.
- Bydd y Pwyllgor Safonau'n cilio i drafod y sylwadau'n breifat ac yn penderfynu naill ai:
  - nad oes angen cymryd unrhyw gamau am y methiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad,
  - y dylid ceryddu'r Aelod neu
  - y dylai'r Aelod gael ei wahardd neu ei wahardd yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'i awdurdod am gyfnod o chwe mis ar y mwyaf,
- ac yna bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n cyhoeddi ei benderfyniad.

The Hearing - Stage 4

- *If the Committee decides that the Member has not failed to comply with the Code of Conduct, it will formerly record that there is no evidence of any failure by the Member to comply with the Code of Conduct and that therefore no action needs to be taken.*
- *If the Standards Committee decides that the Member has failed to comply with the Code of Conduct it will invite the Member and the Investigating Officer to make representations as to:*
- *whether or not the Committee should apply a sanction; and*
- *what form any sanction should take.*
- *The Standards Committee will retire to deliberate in private on the representations and decide either that:*
  - *no action needs to be taken in respect of the failure to comply with the Code of Conduct,*
  - *the Member should be censured or*
  - *the Member should be suspended or partially suspended from being a member or co-opted member of his or her authority for a period not exceeding six months,*
- *after which the Chair of the Standards Committee will announce their decision.*



Trafod yn Gyhoeddus neu'n Breifat

- Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – mae'r Categorïau o Wybodaeth Eithriedig a nodir yn yr atodlen yn berthnasol i Bwyllgorau Safonau]
  e.e. gwybodaeth mewn perthynas ag unigolyn penodol neu a allai adnabod unigolyn
  gwybodaeth mewn perthynas â materion ariannol neu fusnes unrhyw unigolyn
  gwybodaeth y gellid cynnal cais braint broffesiynol gyfreithiol iddi
- Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a'r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2007 yn ychwanegu'r canlynol o ran gwrandawiadau Pwyllgorau Safonau:
  Gwybodaeth sy'n destun unrhyw rwymedigaethau cyfrinachedd.
  Gwybodaeth sy'n berthnasol mewn unrhyw ffordd i faterion yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol.
  Ystyriaethau pwyllgor safonau neu is-bwyllgor pwyllgor safonau a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 wrth ddod i unrhyw ganfyddiad am fater a gyfeiriwyd ato

Proceedings in Public or Private

- *Schedule 12A Local Government Act 1972 - Categories of Exempt information set out in the schedule apply to Standards Committees*
  e.g. information relating to a particular individual or which may identify an individual
  information relating to the financial or business affairs of any person
  information to which a claim of legal professional privilege could be maintained
- *Local Authorities (Executive Arrangements) (Decisions, Documents and Meetings) and the Standards Committees (Wales) (Amendment) Regulations 2007 added the following in respect of Standards Committees hearings:*
  Information which is subject to any obligations of confidentiality.
  Information which relates in anyway to matters concerning national security.
  The deliberations of a standards committee or of a sub-committee of a standards committee established under the provisions of Part 3 of the Local Government Act 2000 in reaching any finding on a matter referred to it



Trafod yn Gyhoeddus neu'n Breifat

- Mae'r arfer yn amrywio ledled Cymru o ran cynnal cyfarfodydd penderfynu cychwynnol yn gyhoeddus a chyhoeddi adroddiadau'r ymchwiliad a dogfennaeth berthnasol arall
- Beth yw arfer eich awdurdod chi?

Proceedings in Public or Private

- *Practice varies across Wales as to the holding of initial determination meetings in public and the publication of the investigation reports and other relevant documentation*
- *What is your authority's practice?*



COSBAU

- Yn dilyn canlyniad y Gwrandawiad, os yw'r Pwyllgor Safonau'n penderfynu bod methiant wedi bod ar ran yr Aelod i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad

SANCTIONS

- *Following the conclusion of the Hearing if the Standards Committee decide that there has been a failure on the part of the Member to comply with the Code of Conduct*

Cosbau sydd ar gael

- Nid oes angen cymryd camau gweithredu mewn perthynas â'r methiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad
- Dylid ceryddu'r Aelod neu
- Y dylid atal yr Aelod yn llawn neu yn rhannol rhag bod yn Aelod neu'n Aelod cyfetholedig o'i (h)awdurdod am gyfnod o ddim mwy na chwe mis



Available Sanctions

- *No action needs to be taken in respect of the failure to comply with the Code of Conduct*
- *The Member should be censured or*
- *The Member should be suspended or partially suspended from being a Member or co-opted Member of his or her Authority for a period not exceeding six months*

Ceryddu

- Gall y Pwyllgor Safonau geryddu Aelod
- Mae'n fynegiant o anghymeradwyaeth gref neu feirniadaeth lem
- Yn ogystal â hyn gallant hefyd argymell camau gweithredu eraill fel annog Aelod i ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad neu fynd am hyfforddiant

Censure

- *Standards Committee may censure a Member*
- *It is an expression of strong disapproval or harsh criticism*
- *In addition they can also recommend other actions such as urging the Member to write a letter of apology or undergo training*



Gwaharddiad

Bydd hyn yn dechrau ar yr hwyraf

1. Y diwrnod ar ôl i'r amser y caniateir cyflwyno rhybudd o apêl ddod i ben (21 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad o benderfyniad y Pwyllgor Safonau) neu
2. Derbyn hysbysiad o ganlyniad yr apêl neu
3. Penderfyniad pellach gan y Pwyllgor Safonau ar ôl derbyn argymhelliad gan Banel Dyfarnu Cymru



Suspension

This will commence on the latest of

1. *The day after the expiry of the time allowed to lodge a notice of appeal (21 days from receiving notification of the Standards Committee's determination) or*
2. *Receipt of notification of conclusion of any appeal or*
3. *A further determination by the Standards Committee after receiving a recommendation from the Adjudication Panel for Wales*

Trefn Procedure

- Dylid cadarnhau'r penderfyniad mewn ysgrifen gyda'r rhesymau dros y penderfyniad ac anfon copi at yr Aelod gan gynnwys ei hawl i apelio
- Dylai'r Achwynwyr hefyd gael gwybod cyn gynted ag sy'n ymarferol rhesymol yn ogystal â'r Ombwdsmon



Procedure

- *The decision should be confirmed in writing with the reasons for the decision and a copy sent to the Member including his or her right to appeal*
- *The Complainant should also be informed as soon as reasonably practicable as well as the Ombudsman*

Panel Dyfarnu Cymru

Lle gwneir apêl o ganlyniad i benderfyniad Pwyllgor Safonau, gall tribiwnlys apeliadau

1. Gefnogi penderfyniad y Pwyllgor Safonau
2. Cyfeirio mater yn ôl i'r Pwyllgor Safonau, yn argymell ei fod yn gweithredu cosb wahanol neu
3. Gwrthdroi'r penderfyniad

Adjudication Panel for Wales

Where an appeal is made from a Standards Committee decision, an appeals tribunal may

1. *Endorse the decision of the Standards Committee*
2. *Refer a matter back to the Standards Committee recommending it impose a different penalty or*
3. *Overturn the decision*



ASTUDIAETHAU ACHOS

CASE STUDIES



GWEITHDREFN I DDELIO Â HONIADAU A WNAED YN ERBYN CYNGHORWYR AC A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR SAFONAU

Rhagarweiniad

1. Mae'r ddogfen hon yn gosod y weithdrefn fydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn ei dilyn, lle mae hynny'n ofynnol, i wneud penderfyniadau ynghylch ymddygiad y Cynghorwyr yn dilyn ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Swyddog Monitro'r Cyngor o dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Os oes gwrthdaro rhwng y ddogfen hon ac unrhyw ofynion statudol, y gofynion statudol fydd yn trechu.

Dehongliad

2. Yn y weithdrefn hon:

   (a) mae 'y Ddeddf' yn golygu Deddf Llywodraeth Leol 2000

   (b) mae 'y Cyngor' yn golygu Cyngor Sir Ddinbych

   (c) mae 'y Cod Ymddygiad' yn golygu'r cod ymddygiad i aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor neu'r cynghorau cymuned yn ardal y Cyngor yn 2008 yn unol ag adran 51 y Ddeddf, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau

   (ch) mae 'yr Achwynydd' yn golygu unrhyw un a wnaeth unrhyw honiad a arweiniodd at yr ymchwiliad

   (d) mae'r 'Swyddog Ymchwilio' yn golygu'r person a gynhaliodd ymchwiliad i unrhyw gyhuddiad honedig o'r Cod Ymddygiad ac a luniodd yr adroddiad ymchwilio, naill ai'r Ombwdsmon (neu berson sy'n gweithredu ar ei ran/ei rhan) neu'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro.

   (dd) mae 'adroddiad ymchwiliad' yn golygu adroddiad ar ganlyniad ymchwiliad i unrhyw doriad honedig o'r Cod Ymddygiad a luniwyd naill ai gan yr Ombwdsmon o dan adran 71(2) y Ddeddf neu gan y Swyddog Monitro o dan y Rheoliadau.

   (e) mae 'yr Aelod' yn golygu unrhyw un sy'n destun ymchwiliad i unrhyw doriad honedig o'r Cod Ymddygiad

   (f) mae 'y Swyddog Monitro' yn golygu bod y swyddog am y tro'n cael ei benodi gan y Cyngor o dan adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989

   (ff) mae 'yr Ombwdsmon' yn golygu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(g) mae 'y Rheoliadau' yn golygu Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd

(ng) mae 'y Swyddog Safonau' yn golygu'r swyddog am y tro sy'n cael ei benodi gan y Cyngor i gefnogi gwaith y Pwyllgor Safonau.

Crynodeb o'r weithdrefn

3. O dan adran 69 y Ddeddf, gallai'r Ombwdsmon ymchwilio i unrhyw doriad honedig o'r Cod Ymddygiad gan aelodau neu aelodau cyfetholedig (neu gyn aelodau neu gyn aelodau cyfetholedig) y Cyngor neu gyngor cymuned yn ardal y Cyngor.

4. O dan adran 70(4) y Ddeddf, lle mae'r Ombwdsmon yn gorffen y fath ymchwiliad cyn iddo gael ei gwblhau, gallai ef neu hi gyfeirio'r materion sy'n destun yr ymchwiliad at y Swyddog Monitro. Bydd y Swyddog Monitro'n ymchwilio i faterion wedyn yn unol â'r Rheoliadau cyn rhoi adroddiad ac, os yn briodol, bydd yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Safonau.

5. Neu, o dan adran 71(2) y Ddeddf, lle mae'r Ombwdsmon yn penderfynu ar ôl ymchwilio bod hynny'n briodol, bydd ef neu hi'n llunio adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad ac yn ei anfon at y Swyddog Monitro a Phwyllgor Safonau'r Cyngor. Bydd y Swyddog Monitro'n ystyried adroddiad yr Ombwdsmon wedyn yn unol â'r Rheoliadau, cyn, os bo'n briodol, gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Safonau.

6. Bydd y Pwyllgor Safonau wedyn yn gwneud penderfyniad cychwynnol naill ai:

   (a) nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant i ufuddhau i'r Cod Ymddygiad; neu

   (b) dylid rhoi cyfle i'r Aelod wneud sylwadau, naill ai ar lafar neu ar bapur.

7. Lle rhoddir cyfle i'r Aelod wneud sylwadau, bydd y Pwyllgor Safonau'n galw gwrandawiad i ystyried unrhyw ymateb a wnaed gan yr Aelod a rhaid iddo benderfynu o dan reoliad 9(1) y Rheoliadau naill ai:

   (a) nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant i ufuddhau i'r Cod Ymddygiad ac felly nid oes angen cymryd unrhyw gamau,

   (b) mae'r Aelod wedi methu ufuddhau i'r Cod Ymddygiad ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r methiant hwnnw

   (c) mae'r Aelod wedi methu ufuddhau i'r Cod Ymddygiad a dylid ei geryddu, neu

   (ch) mae'r Aelod wedi methu ufuddhau i'r Cod Ymddygiad a dylai gael ei wahardd dros dro neu ei wahardd yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'i (h)awdurdod am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis

a chymryd unrhyw gam o'r fath yn unol â hynny.

Ymchwiliadau gan y Swyddog Monitro (atgyfeiriadau o dan adran 70(4) y Ddeddf)

8. Lle mae'r Ombwdsmon yn gorffen ei ymchwiliad cyn iddo gael ei gwblhau ac yn cyfeirio'r materion sy'n destun yr ymchwiliad at y Swyddog Monitro o dan adran 70(4) y Ddeddf, rhaid i'r Swyddog Monitro:-

   (a) gynnal ymchwiliad; ac

   (b) adrodd, ac os yn briodol gwneud argymhellion i Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

9. Bydd y Swyddog Monitro'n ymchwilio yn unol â'r Rheoliadau a gallent ddilyn gweithdrefnau y mae ef neu hi'n ystyried eu bod yn briodol yn amgylchiadau'r achos.

10. Ar ôl casglu'r ymchwiliad, rhaid i'r Swyddog Monitro:

   (a) lunio adroddiad ar ganfyddiadau'i ymchwiliad ac, os yn briodol, gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Safonau,

   (b) anfon copi o'r adroddiad at yr Aelod, a

   (c) chymryd camau rhesymol i anfon copi o'r adroddiad at yr Achwynydd.

11. Bydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried adroddiad y Swyddog Monitro ac unrhyw argymhellion yn unol â'r weithdrefn a osodwyd isod.

Ymchwiliadau'r Ombwdsmon (atgyfeiriadau o dan adran 71(2) y Ddeddf)

12. Lle mae'r Ombwdsmon yn cwblhau ei (h)ymchwiliad ac yn anfon adroddiad at y Swyddog Monitro a Phwyllgor Safonau'r Cyngor o dan adran 71(2) y Ddeddf, rhaid i'r Swyddog monitro ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ac, os yn briodol, gwneud argymhellion i Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

13. Bydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ynghyd ag unrhyw argymhellion a wnaed gan y Swyddog Monitro yn unol â'r weithdrefn a osodwyd isod.

Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau – Penderfyniad Cychwynnol

14. Ar ôl i'r Swyddog Monitro:

    (a) lunio adroddiad ymchwilio yn unol â pharagraff 10; neu

    (b) ystyried adroddiad ymchwilio'r Ombwdsmon yn unol â pharagraff 12

    bydd ef/hi yn trefnu i alw cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau cyn gynted â phosibl a bod copi o'r adroddiad ymchwilio, ynghyd ag argymhellion y Swyddog Monitro (os oes rhai), yn cael eu hanfon at bob aelod o'r Pwyllgor Safonau.

15. Bydd hysbysiad o amser a man y cyfarfod yn cael ei roi yn unol â Rhan VA Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001.

16. Os caiff adroddiad yr ymchwiliad ei lunio gan yr Ombwdsmon, bydd y Swyddog Monitro'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau. Os caiff adroddiad yr ymchwiliad ei lunio gan y Swyddog Monitro, bydd y Swyddog Safonau neu ryw berson cymwys arall yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau.

17. Bydd materion cyfarfod y Pwyllgor Safonau'n gyfyngedig i ystyried adroddiad yr ymchwiliad ac argymhellion y Swyddog Monitro (os oes rhai) ac i wneud penderfyniad cychwynnol naill ai:-

    (a) nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant i ufuddhau i'r Cod Ymddygiad, neu

    (b) y dylai'r Aelod gael y cyfle i wneud sylwadau, naill ai ar lafar neu ar bapur mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod ef neu ei bod hi wedi methu, neu y gallai fethu ufuddhau i'r Cod Ymddygiad.

Ar ôl Cyfarfod Cyntaf y Pwyllgor Safonau

18. Lle mae'r Pwyllgor Safonau'n penderfynu nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant i ufuddhau i'r Cod Ymddygiad, bydd y Swyddog Safonau'n hysbysu'r Aelod, yr Achwynydd a'r Ombwdsmon yn unol â hynny.

19. Lle mae'r Pwyllgor Safonau'n penderfynu y dylai'r Aelod gael cyfle i wneud sylwadau, bydd y Swyddog Safonau'n hysbysu'r Aelod ynghylch penderfyniad y Pwyllgor a'r drefn y mae'r Pwyllgor yn bwriadu ei mabwysiadu i gael ac ystyried unrhyw sylwadau y gallai ef neu hi ddymuno'u gwneud.

Paratoi ar gyfer y gwrandawiad i ystyried sylwadau'r Aelodau

20. Bydd y Swyddog Safonau, trwy ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, yn ysgrifennu at yr Aelod i gynnig dyddiad ar gyfer y gwrandawiad er mwyn ystyried unrhyw sylwadau y gallai'r Aelod ddymuno'u gwneud a gofyn i'r Aelod ymateb yn ysgrifenedig ymhen 14 diwrnod i gadarnhau a fydd ef/hi:

    (a) yn gallu mynychu'r gwrandawiad

    (b) eisiau gwneud sylwadau, naill ai ar lafar neu ar bapur ac os felly, cynnwys unrhyw sylwadau ysgrifenedig yn ei (h)ymateb

    (c) yn anghytuno ag unrhyw un o'r canfyddiadau ffaith yn adroddiad yr ymchwiliad, ac os bydd, pa faterion y mae ef neu hi'n anghytuno â nhw a'r rhesymau am unrhyw anghytundeb;

    (ch) eisiau ymddangos gerbron y Pwyllgor mewn person neu gael ei gynrychioli/chynrychioli yn y gwrandawiad gan gyfreithiwr, bargyfreithiwr neu unrhyw un arall, yn unol â'i hawl o dan y Rheoliadau

    (d) eisiau rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Safonau, naill ai ar lafar neu ar bapur;

    (dd) eisiau galw ar dystion perthnasol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Safonau;

    (e) eisiau cynnal unrhyw ran o'r cyfarfod yn breifat;

    (f) eisiau i unrhyw ran o adroddiad yr ymchwiliad neu ddogfennau perthnasol eraill gael eu celu rhag y cyhoedd.

21. Bydd y Swyddog Safonau'n rhoi gwybod i'r Swyddog Ymchwilio ynghylch dyddiad y gwrandawiad arfaethedig ac yn gofyn a fydd ef neu hi'n mynychu'r gwrandawiad.

22. Bydd y Swyddog Safonau'n anfon copi o ymateb yr Aelod dan baragraff 20 at y Swyddog Ymchwilio a bydd yn gofyn iddo/iddi gadarnhau ar bapur ymhen 7 niwrnod:

    (a) a oes ganddo/ganddi sylwadau ar ymateb yr Aelod

    (b) ydy ef/hi am gael ei gynrychioli/chynrychioli yn y gwrandawiad;

    (c) ydy ef/hi am alw ar dystion perthnasol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Safonau;

    (ch) ydy ef/hi am i unrhyw ran o'r cyfarfod gael ei gynnal yn breifat; ac

    (d) ydy ef/hi am i unrhyw ran o adroddiad yr ymchwiliad neu ddogfennau perthnasol eraill i gael eu celu rhag y cyhoedd.

23. Bydd y Swyddog Safonau'n ysgrifennu at aelodau'r Pwyllgor, yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio o leiaf bythefnos cyn y gwrandawiad i:

(a) gadarnhau dyddiad, amser a lle'r gwrandawiad;

(b) crynhoi'r honiad;

(c) amlinellu prif ffeithiau'r achos y cytunir arnynt;

(ch) amlinellu'r prif ffeithiau sydd heb eu cytuno arnynt;

(d) nodi a fydd yr Aelod neu'r Swyddog Ymchwilio yn mynychu neu'n cael ei gynrychioli/chynrychioli yn y gwrandawiad;

(dd) rhestru'r tystion hynny y gofynnir iddynt roi tystiolaeth, os oes rhai;

(e) amgáu adroddiad yr ymchwiliad, unrhyw ddogfennau perthnasol, ymateb yr Aelod ac unrhyw ymateb pellach gan y Swyddog Ymchwilio; ac

(f) amlinellu'r weithdrefn arfaethedig ar gyfer y cyfarfod.

Grymoedd y Pwyllgor Safonau

24. Yn unol â gofynion cyfiawnder naturiol, gallai'r Pwyllgor Safonau gynnal y cyfarfod yn y ffordd mae'n ystyried ei bod yn addas i egluro'r materion sydd o'i flaen ac yn gyffredinol i drafod y trefniadau'n gyfiawn. Rhaid iddo, cyn belled ag y mae'n ymddangos yn briodol iddo, geisio osgoi ffurfioldeb ac anhyblygrwydd yn ei drefniadau. Bydd y Pwyllgor Safonau'n penderfynu ar dystiolaeth ffeithiol trwy gydbwyso tebygolrwydd.

25. Gallai'r Aelod neu'r Swyddog Ymchwilio gael eu cynrychioli neu gael cwmni rhywun sydd â chymwysterau cyfreithiol ai peidio, ond os bydd y Pwyllgor Safonau mewn unrhyw achos penodol yn fodlon bod rheswm da, gallai wrthod gadael i berson penodol gynorthwyo neu gynrychioli parti yn y gwrandawiad.

26. Gallai'r Pwyllgor Safonau gymryd cyngor cyfreithiol gan swyddog y Cyngor a benodwyd at y diben hwn unrhyw bryd yn ystod y cyfarfod neu wrth iddynt ystyried y canlyniad. Bydd sylwedd unrhyw gyngor cyfreithiol a roddwyd i'r Pwyllgor yn cael ei rannu gyda'r Aelod a'r Swyddog Ymchwilio os byddant yn bresennol.

27. Lle bo'n briodol, ac yn unol â'r Rheoliadau, mae gan y Pwyllgor Safonau'r grym i geryddu'r Aelod, neu ohirio neu ohirio'n rhannol yr Aelod am gyfnod o nid mwy na 6 mis.

Gweithdrefn yn y gwrandawiad

28. Bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus oni chaiff y Pwyllgor Safonau ei berswadio bod rheswm da i eithrio'r cyhoedd.

29. Bydd gweithdrefn y cyfarfod fel y mae wedi'i gosod isod, yn amodol ar y Cadeirydd yn gwneud y newidiadau y mae ef neu hi'n credu eu bod yn addas er mwyn sicrhau gwrandawiad teg ac effeithlon.

Rhagarweiniad

30. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n cyflwyno'r personau hynny sy'n bresennol a bydd yn esbonio modd a threfn y trefniadau.

Y Cam Cyntaf: Materion trefniadol rhagarweiniol

31. Bydd y Pwyllgor Safonau wedyn yn datrys unrhyw faterion neu anghytundebau am sut dylai'r gwrandawiad barhau, sydd heb eu datrys yn ystod y broses cyn y gwrandawiad.

Yr ail gam: Canfod ffeithiau

32. Bydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried wedyn a oes unrhyw anghytundebau sylweddol ai peidio am y ffeithiau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr ymchwiliad.

33. Os oes anghytundeb o ran y ffeithiau:-

    (a) bydd y Swyddog Ymchwilio, os ydyw'n bresennol, yn cael ei wahodd i wneud unrhyw sylwadau angenrheidiol i gefnogi'r canfyddiadau ffeithiau perthnasol yn adroddiad yr ymchwiliad.

    (b) gallai'r Swyddog Ymchwilio alw ar unrhyw dystion cefnogol angenrheidiol i roi tystiolaeth, gyda chaniatâd y Pwyllgor Safonau a bydd y Pwyllgor yn rhoi cyfle i'r Aelod herio unrhyw dystiolaeth a roddwyd gerbron gan unrhyw dyst a alwyd gan y Swyddog Ymchwilio.

    (c) wedyn bydd yr Aelod yn cael ei wahodd i wneud sylwadau i gefnogi ei fersiwn o'r ffeithiau.

    (ch) gallai'r Aelod alw ar unrhyw dystion angenrheidiol i roi tystiolaeth, gyda chaniatâd y Pwyllgor Safonau a bydd y Pwyllgor yn rhoi cyfle i'r Swyddog Ymchwilio herio unrhyw dystiolaeth a roddwyd gerbron gan unrhyw dyst a alwyd gan yr Aelod.

34. Gallai'r Pwyllgor Safonau gwestiynu unrhyw un o'r bobl sydd ynghlwm neu unrhyw un o'r tystion unrhyw bryd.

35. Os ydy'r Aelod yn anghytuno ag unrhyw ffaith berthnasol yn adroddiad yr ymchwiliad, heb roi gwybod am yr anghytundeb o flaen llaw, rhaid iddo ef neu iddi hi roi rhesymau da am beidio â son amdano cyn y gwrandawiad. Os nad yw'r Swyddog Ymchwilio'n bresennol, bydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried a fyddai er lles y cyhoedd ai peidio i barhau yn ei (h)absenoldeb. Ar ôl ystyried esboniad yr Aelod am beidio â chodi'r mater yn gynharach, gallai'r Pwyllgor wedyn:

    (a) barhau â'r gwrandawiad, gan ddibynnu ar y wybodaeth yn adroddiad yr ymchwiliad

    (b) galluogi'r Aelod i wneud sylwadau ar y mater, a gwahodd y Swyddog Ymchwilio i ymateb a galw ar unrhyw dystion, fel y bo angen; neu

    (c) gohirio'r gwrandawiad er mwyn trefnu i dystion priodol fod yn bresennol neu i'r Swyddog Ymchwilio fod yn bresennol os nad yw ef neu hi'n bresennol yn barod.

36. Wrth gasglu'r sylwadau o ran materion ffeithiau, bydd y Pwyllgor Safonau'n gadael i benderfynu'n breifat ar y sylwadau, ac ar ôl hynny bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n cyhoeddi'r ffeithiau maen nhw wedi'u canfod.

<u>Trydydd cam: Penderfynu ydy'r Aelod wedi methu ufuddhau i'r Cod</u>

37. Bydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried wedyn ydy'r Aelod wedi methu ufuddhau i'r Cod ar sail y ffeithiau a ganfuwyd ganddynt.

38. Bydd y Pwyllgor Safonau'n gwahodd y Swyddog Ymchwilio i wneud sylwadau o ran ydy'r Aelod wedi methu ufuddhau i'r Cod Ymddygiad ai peidio, ar sail y ffeithiau y mae'r Pwyllgor wedi'u canfod.

39. Bydd y Pwyllgor Safonau'n gwahodd yr Aelod i ymateb i sylwadau'r Swyddog Ymchwilio ac i wneud sylwadau o ran ydy ef neu hi wedi methu ufuddhau i'r Cod Ymddygiad ai peidio ar sail y canfyddiadau y mae'r Pwyllgor wedi'u canfod.

40. Gallai'r Pwyllgor Safonau gwestiynu unrhyw un sydd ynghlwm ar unrhyw bwynt a godant yn eu sylwadau, unrhyw bryd.

41. Bydd yr Aelod yn cael ei wahodd i wneud unrhyw bwyntiau perthnasol terfynol.

42. Bydd y Pwyllgor Safonau'n gadael i benderfynu'n breifat ar y sylwadau ac i benderfynu ydy'r Aelod wedi methu ufuddhau i'r Cod Ymddygiad ai peidio, ac ar ôl hynny, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n cyhoeddi eu canfyddiadau.

Pedwerydd cam: Camau i'w cymryd

43. Os bydd y Pwyllgor Safonau'n penderfynu nad yw'r Aelod wedi methu ufuddhau i'r Cod Ymddygiad, bydd yn cofnodi'n ffurfiol nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant gan yr Aelod i ufuddhau i'r Cod Ymddygiad ac felly nid oes angen cymryd unrhyw gamau.

44. Os bydd y Pwyllgor Safonau'n penderfynu bod yr Aelod wedi methu ufuddhau i'r Cod Ymddygiad, bydd yn gwahodd yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio i wneud sylwadau o ran:

    (a) a ddylai'r Pwyllgor osod cosb ai peidio; ac

    (b) ar ba ffurf ddylai unrhyw gosb fod.

45. Bydd y Pwyllgor Safonau'n gadael i benderfynu'n breifat ar y sylwadau ac yn penderfynu naill ai:

    (a) nad oes angen unrhyw gamau mewn perthynas â'r methiant i ufuddhau i'r Cod Ymddygiad,

    (b) dylai'r Aelod gael ei geryddu neu

    (c) dylai'r Aelod gael ei wahardd neu ei wahardd yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'i (h)awdurdod am gyfnod o nid mwy na chwe mis,

    ac ar ôl hynny, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n cyhoeddi eu penderfyniad.

46. Ar ôl gwneud penderfyniad, bydd y Pwyllgor Safonau'n cyfarwyddo'r Swyddog Safonau i gadarnhau'r penderfyniad a'r rhesymau am y penderfyniad yn ysgrifenedig ac i anfon copi o'r penderfyniad ysgrifenedig (gan gynnwys manylion am hawl yr Aelod i apelio) at yr Aelod, yr Achwynydd a'r Ombwdsmon cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Methu gwneud sylwadau / mynychu'r gwrandawiad

47. Os bydd yr Aelod yn methu gwneud sylwadau, gallai'r Pwyllgor Safonau:

    (a) oni bai ei fod yn fodlon bod digon o reswm am y fath fethiant, ystyried adroddiad yr ymchwiliad a gwneud penderfyniad yn absenoldeb yr Aelod; neu

    (b) roi cyfle pellach i'r Aelod wneud sylwadau.

48. Os bydd parti'n methu bod yn bresennol na chael eu cynrychioli yn y gwrandawiad, gallai'r Pwyllgor Safonau, os ydyw'n fodlon fod y parti'n cael ei hysbysu'n briodol ynghylch y gwrandawiad ac nad oes rheswm da am y fath absenoldeb -

    (a) wrando ar y mater a phenderfynu arno yn absenoldeb y parti; neu

    (b) ohirio'r gwrandawiad.

Salwch neu Analluedd

49. Os bydd y Pwyllgor Safonau'n fodlon fod unrhyw barti'n methu, trwy salwch neu nam corfforol neu feddyliol, i fynychu'r gwrandawiad a bod anallu'r parti'n debygol o barhau am amser hir, gallai'r Pwyllgor Safonau wneud trefniadau fel yr ymddengys eu bod yn gweddu orau, yn holl amgylchiadau'r achos, i benderfynu ar y mater yn deg.

Gwaharddiad

50. Bydd cyfnod o waharddiad neu waharddiad rhannol yn dechrau ar y diwrnod ar ôl:

    (a) y terfyn amser a ganiateir i gofnodi hysbysiad o apêl i dribiwnlys apeliadau dan y Rheoliadau (h.y. ymhen 21 niwrnod o gael hysbysiad o benderfyniad y Pwyllgor Safonau);

    (b) cael hysbysiad o gasgliad unrhyw apêl yn unol â'r Rheoliadau;

    (c) penderfyniad pellach gan y Pwyllgor Safonau a wnaed ar ôl cael argymhelliad gan dribiwnlys apeliadau dan y Rheoliadau,

    pa bynnag sy'n digwydd ddiwethaf.

Atgyfeiriad gan Dribiwnlys Apeliadau

51. Lle mae'r Pwyllgor Safonau'n penderfynu bod yr Aelod wedi methu ufuddhau i'r Cod Ymddygiad, gallai'r Aelod apelio yn erbyn y penderfyniad i dribiwnlys apeliadau a dynnwyd o Banel Dyfarnu Cymru.

52. Gallai tribiwnlys apeliadau gymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Safonau, cyfeirio mater yn ôl iddo gan argymell ei fod yn gosod cosb wahanol neu ddymchwel y penderfyniad.

53. Os:

    (a) bydd y Pwyllgor Safonau'n penderfynu bod yr Aelod wedi methu ufuddhau i'r Cod Ymddygiad;

    (b) bod yr Aelod yn apelio at dribiwnlys apeliadau a dynnwyd o Banel Dyfarnu Cymru; a

    (c) bod y tribiwnlys dywededig yn cyfeirio'r mater yn ôl at y Pwyllgor Safonau gan argymell gosod cosb wahanol,

    bydd y Pwyllgor Safonau'n cwrdd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol i ystyried argymhelliad y tribiwnlys apeliadau a bydd yn penderfynu a ddylai gynnal ei benderfyniad gwreiddiol neu dderbyn yr argymhelliad ai peidio.

54. Ar ôl i'r Pwyllgor Safonau wneud ei benderfyniad, bydd yn cyfarwyddo'r Swyddog Safonau i gadarnhau'r penderfyniad a'r rhesymau am y penderfyniad yn ysgrifenedig ac i anfon copi o'r penderfyniad ysgrifenedig at yr Aelod, yr Achwynydd, yr Ombwdsmon a llywydd Panel Dyfarnu Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Safonau

55. Bydd y Pwyllgor Safonau'n llunio ymhen 14 diwrnod ar ôl:

    (a) y terfyn amser a ganiateir i gofnodi hysbysiad o apêl i dribiwnlys apeliadau dan y Rheoliadau; neu

    (b) gael hysbysiad o gasgliad unrhyw apêl yn unol â'r Rheoliadau; neu

    (c) benderfyniad pellach gan y Pwyllgor Safonau a wnaed ar ôl cael argymhelliad gan dribiwnlys apeliadau dan y Rheoliadau,

    pa bynnag un sy'n digwydd ddiwethaf, adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad ac yn anfon copi at yr Ombwdsmon, y Swyddog Monitro, yr Aelod ac yn cymryd camau rhesymol i anfon copi at yr Achwynydd.

56. O gael adroddiad y Pwyllgor Safonau, bydd y Swyddog Monitro:

    (a) yn cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y Cyngor am gyfnod o 21 niwrnod ac yn sicrhau bod copïau ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn rhad ac am ddim ar bob amser rhesymol yn un neu fwy o swyddfeydd y Cyngor, lle bydd gan unrhyw un yr hawl i gymryd copïau o, neu ddetholiadau o'r adroddiad pan fo ar gael yn y modd hwnnw,

    (b) yn cyflenwi copi o'r adroddiad i unrhyw un ar gais os bydd ef neu hi'n talu'r ffi y gallai'r Cyngor ofyn yn rhesymol amdani; a

    (c) heb fod yn hwyrach na 7 niwrnod ar ôl i'r adroddiad ddod i law'r Pwyllgor Safonau, yn rhoi hysbysiad cyhoeddus, trwy hysbysebu mewn papurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal ac mewn ffyrdd eraill yr ymddengys eu bod yn briodol iddo neu iddi. Bydd copïau o'r adroddiad ar gael a ddarperir yn ôl is-baragraffau (a) a (b) uchod, a byddant yn dynodi'r dyddiad (sy'n ddyddiad heb fod yn fwy na saith niwrnod ar ôl rhoi'r hysbysiad cyhoeddus yn y lle cyntaf) y bydd y cyfnod o 21 niwrnod yn dechrau ohono.

Costau

57. Nid oes gan y Pwyllgor Safonau grym i ddyfarnu unrhyw gostau neu dreuliau sy'n codi o unrhyw un o'i drafodion.

Y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Chwefror 2012

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

Holiadur i'w gwblhau gan yr Aelod- trefniadau ar gyfer gwrandawiad Pwyllgor Safonau
ENW'R AELOD:

Ticiwch y bocsys perthnasol a defnyddio'r taflenni parhad ar ddiwedd yr holiadur os oes angen.

1	Ydych chi yn bwriadu mynychu gwrandawiad y pwyllgor safonau ar y dyddiad a gynigwyd yn y llythyr atodol? Onid ydych, eglurwch pam.	Ydw ☐	Nac Ydw ☐	Rheswm:
2	Ydych chi'n dymuno cyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor?	Ydw ☐	Nac Ydw ☐	Os ydych, ydych chi'n dymuno cyflwyno: Sylwadau ar lafar? ☐ Sylwadau ysgrifenedig? ☐ (amgaewch y rhain gyda'r holiadur wedi'i chi ei gwblhau)
3	Ydych chi am gyflwyno eich achos eich hunain?	Ydw ☐	Nac Ydw ☐	
4	Onid ydych yn cyflwyno eich achos eich hunan, a fydd cynrychiolydd yn ei gyflwyno ar eich rhan? Os 'bydd', nodwch enw'r cynrychiolydd.	Bydd ☐	Na Fydd ☐	Enw:
5	A yw eich cynrychiolydd yn gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr? Os 'ydi', noder eu cymwysterau cyfreithiol. Yna ewch i gwestiwn 7. Os 'nac ydi' ewch i Gwestiwn 6.	Ydi ☐	Nac Ydi ☐	Cymwysterau:

6	A oes gan eich cynrychiolydd gysylltiad â'r achos? Os 'oes' nodwch y manylion.	Oes ☐ Nac Oes ☐	Manylion:
7	Ydych chi am alw unrhyw dystion? Os 'ydw' cwblhewch adran 8	Ydw ☐ Nac Ydw ☐	Enw tyst neu dystion: (1) (2) (3)
8	<u>Tyst 1</u> A fydd y tyst yn rhoi tystiolaeth ynglŷn â'r: (a) cyhuddiad (b) camau gweithredu y dylai'r pwyllgor safonau eu cymryd petaent yn canfod nad yw'r Cod Ymddygiad wedi'i ddilyn?	Bydd ☐ Na Fydd ☐ ☐ ☐ ☐ ☐	Darparwch amlinelliad o'r dystiolaeth y bydd y tyst yn ei roi:
	<u>Tyst 2</u> A fydd y tyst yn rhoi tystiolaeth ynglŷn â'r: (a) cyhuddiad (b) camau gweithredu y dylai'r pwyllgor safonau eu cymryd petaent yn canfod nad yw'r Cod Ymddygiad wedi'i ddilyn?	Bydd ☐ Na Fydd ☐ ☐ ☐ ☐ ☐	Darparwch amlinelliad o'r dystiolaeth y bydd y tyst yn ei roi:

	Tyst 3 A fydd y tyst yn rhoi tystiolaeth ynglŷn â'r: (a) cyhuddiad (b) camau gweithredu y dylai'r pwyllgor safonau eu cymryd petaent yn canfod nad yw'r Cod Ymddygiad wedi'i ddilyn?	Bydd ☐ ☐ ☐ Na Fydd ☐ ☐	Darparwch amlinelliad o'r dystiolaeth y bydd y tyst yn ei roi:
9	A oes gennych chi, eich cynrychiolydd neu eich tystion anawsterau mynediad neu anghenion arbennig eraill? Er enghraifft, a oes angen mynediad ar gyfer cadair olwyn? Os 'oes' noder y manylion.	Oes ☐ Nac Oes ☐	Manylion:
10	Ydych chi am gael unrhyw rhan o'r gwrandawiad yn breifat? Os 'ydw', noder pa ran(nau) a nodi'r rhesymau.	Ydw ☐ Nac Ydw ☐	Rhesymau:
11	Ydych chi am atal unrhyw ran o'r dogfennau perthnasol rhag cael eu harchwilio'n gyhoeddus? Os 'ydw' noder pa ddogfennau a nodwch y rhesymau.	Ydw ☐ Nac Ydw ☐	Rhesymau:

12	Ydych chi'n anghytuno gydag unrhyw ganfyddiad ffeithiol yn adroddiad yr archwiliad?	Ydw ☐ Nac Ydw ☐	Os 'ydw' cwblhewch adran 13 drwy roi rhif unrhyw baragraff canfyddiad ffeithiol yn adroddiad yr archwiliad yr ydych yn anghytuno â hwynt, eich rheswm dros anghytuno a'ch awgrym fel arall.
13	Rhif paragraff o adroddiad yr archwiliad:	Rheswm dros anghytuno gyda'r canfyddiad ffeithiol sy'n y paragraff hwn:	Awgrym beth y dylid ei gynnwys yn y paragraff:

Cwblhewch yr holiadur hwn a'i ddychwelyd at Wasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Cyngor Sir Ddinbych, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych.

Taflen barhad

Rhif Cwestiwn	Manylion

Rhif Cwestiwn	Manylion

PANEL DYFARNU CYMRU

CANLLAWIAU AR GOSBAU

1. CAMAU I'W CYMRYD GAN DRIBIWNLYS ACHOS

1.1 Mae Adran 75(10) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") yn rhoi'r pŵer i Lywydd y Panel Dyfarnu gyhoeddi canllawiau ar sut y dylai tribiwnlysoedd y mae eu haelodau yn perthyn i'r Panel ddod i benderfyniadau. Cyhoeddir y canllawiau hyn yn unol â'r pŵer hwnnw ac maent yn ymwneud â'r ffordd y dylai tribiwnlysoedd achos ddod i benderfyniadau ar ôl canfod bod yr atebydd wedi methu â dilyn darpariaethau cod ymddygiad. Nid yw'r canllawiau'n rhagnodol. Mae'r penderfyniad sydd i'w wneud ym mhob achos yn fater i'r tribiwnlys achos a bydd, i raddau helaeth, yn dibynnu ar y ffeithiau a'r amgylchiadau penodol fel y'u canfuwyd gan y tribiwnlys.

1.2 Nodir y pwerau sydd ar gael i dribiwnlys achos yn Adran 79 o Ddeddf 2000 ac, yn y bôn, maent fel a ganlyn:

a. Anghymwyso'r aelod rhag bod, neu ddod, yn aelod o'r awdurdod perthnasol dan sylw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall.

b. Gwahardd neu rannol wahardd yr atebydd rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol dan sylw.

c. Peidio â gwneud unrhyw un o'r uchod.

1.3 Er nad yw'r statud yn darparu'n benodol ar gyfer rhybuddio atebydd ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol, os bydd y tribiwnlys achos yn penderfynu peidio â'i wahardd neu ei anghymwyso, efallai y byddai'n briodol gwneud hynny. Pan fydd rhybudd o'r fath wedi'i gofnodi, mae hyn yn debygol o gael ei ystyried os canfyddir unwaith eto fod yr aelod wedi methu â dilyn darpariaethau cod ymddygiad o ganlyniad i ryw weithred ddiweddarach.

1.4 Os caiff yr aelod ei wahardd neu ei anghymwyso, bydd angen i'r tribiwnlys achos ystyried hefyd am ba gyfnod y dylai cosb o'r fath fod mewn grym:

a. ni ddylai cyfnod anghymhwyso fod yn fwy na phum mlynedd.

b. ni ddylai gwaharddiad na gwaharddiad rhannol fod yn fwy na blwyddyn na gweddill cyfnod yr atebydd yn y swydd os yw hynny'n fyrrach.

1.5 Os caiff yr atebydd ei rannol wahardd, bydd angen i'r tribiwnlys achos benderfynu o ba weithgareddau y dylid ei wahardd.

Nodau'r Tribiwnlys Achos

1.6 Bydd y camau y penderfyna'r tribiwnlys achos eu cymryd yn anelu at gynnal a gwella safon yr ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau'r gwahanol gyrff y mae'r cod ymddygiad yn berthnasol iddynt, fel rhan o'r broses o feithrin hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Felly, bwriad y camau gweithredu fydd rhybuddio neu atal yr atebydd penodol rhag unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol, a hefyd rybuddio eraill rhag gweithredu mewn modd cyffelyb.

1.7 Er bod yr adran hon yn cynnwys canllawiau cyffredinol ar y cyfnod anghymhwyso neu wahardd y gellir ei osod, mae'n bosibl y bydd angen i'r cyfnod gwirioneddol a osodir fod yn fwy neu'n llai er mwyn ystyried ffactorau gwaethygol neu liniarol. Gall ffactorau o'r fath hefyd fod yn ddigon weithiau i ddarbwyllo'r tribiwnlys achos i wahardd yr atebydd pan fyddai ei anghymhwyso wedi'i ystyried yn briodol fel arall, ac i'r gwrthwyneb. Ceir enghreifftiau (nad ydynt yn hollgynhwysfawr) o ffactorau gwaethygol a lliniarol yn yr atodiad.

1.8 Dylai tribiwnlysoedd achos hefyd ystyried canlyniadau gwirioneddol gweithredoedd yr aelod, tra'n cadw mewn cof y canlyniadau posibl hyd yn oed os na chafwyd canlyniadau o'r fath.

1.9 Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys tariff cadarn y gellir ei ddefnyddio i gyfrifo am ba hyd y caiff yr atebydd ei anghymhwyso neu ei wahardd mewn achosion penodol o dorri'r cod.

Anghymhwyso

1.10 Anghymhwyso yw'r opsiwn mwyaf llym sydd ar gael i'r tribiwnlys achos. Mae'r ffactorau a all arwain at ddewis yr opsiwn hwn yn cynnwys un neu ragor o'r canlynol:

a. Bod yr atebydd wedi mynd ati'n fwriadol i geisio sicrhau elw personol (naill ai iddo ef ei hun neu i rywun arall) ar draul y cyhoedd, drwy fanteisio ar ei aelodaeth o'r awdurdod sy'n ddarostyngedig i'r cod ymddygiad.

b. Bod yr atebydd wedi mynd ati'n fwriadol i geisio camddefnyddio ei swydd er mwyn rhoi rhywun arall dan anfantais.

c. Bod yr atebydd wedi methu'n fwriadol â chydymffurfio â'r cod ymddygiad, er enghraifft i brotestio yn erbyn y ddeddfwriaeth y mae'r cod yn rhan ohoni. Mae disgwyl i aelodau awdurdodau perthnasol gynnal y gyfraith.

d. Achosion mynych o dorri'r cod ymddygiad gan yr atebydd.

e. Camddefnyddio grym o fewn yr awdurdod neu adnoddau cyhoeddus er mwyn sicrhau mantais wleidyddol.

f. Camddefnyddio eiddo'r awdurdod perthnasol.

g. Dwyn anfri difrifol ar yr awdurdod.

1.11 Gall fod ffactorau eraill nas rhestrwyd uchod sydd hefyd yn cyfiawnhau anghymhwyso'r atebydd. Ar y llaw arall, ni fydd yn briodol ei anghymhwyso bob amser hyd yn oed os yw'r ffactorau a restrwyd yn gymwys.

1.12 Gall cyfnod anghymhwyso byr fod yn briodol pan nad yw'r atebydd yn aelod mwyach, dan amgylchiadau lle mai ei wahardd fyddai'r gosb debygol, pe bai'r atebydd yn aelod. Byddai hyn yn sicrhau nad yw aelod yn dychwelyd i wasanaethu fel cynghorydd yn gynharach na diwedd y cyfnod y byddai wedi'i wahardd pe na bai wedi ymddiswyddo.

1.13 Gellir anghymhwyso'r atebydd yn hytrach na'i wahardd er mwyn osgoi sefyllfa lle nad oes gan awdurdod gworwm, neu lle mae'r etholwyr yn cael eu gadael heb gynrychiolaeth ddigonol. Byddai anghymhwyso'r atebydd yn ei gwneud yn bosibl i gynnal isetholiadau, tra na fyddai hyn yn bosibl pe bai'r aelod dan sylw yn cael ei wahardd.

1.14 Dylai tribiwnlysoedd achos ystyried bod anghymhwyso yn debygol o gael effaith ariannol ar yr aelod, a fydd yn colli unrhyw hawl i gael lwfansau.

1.15 Yn ôl y gyfraith caiff unrhyw aelod a ddedfrydir i dri mis neu ragor o garchar (p'un a yw wedi'i wahardd ai peidio) ei anghymhwyso am bum mlynedd yn awtomatig. Nid yw'r ffaith bod Llys wedi pennu cosb lai yn golygu nad yw'n briodol anghymhwyso aelod am bum mlynedd. Os bydd y tribiwnlys achos o'r farn bod yr aelod dan sylw'n anaddas i ddal swydd gyhoeddus, ac yn annhebygol o fod yn addas i wneud hynny yn ystod y pum mlynedd nesaf, mae'n bosibl iawn y bydd yn briodol ei anghymhwyso am y cyfnod hwnnw o amser. Yn yr un modd, os daw'r mater gerbron tribiwnlys achos, ni ddylid barnu, oherwydd bod Llys wedi dedfrydu aelod i dri mis neu ragor o garchar, y dylid ei anghymhwyso am y cyfnod hwyaf posibl yn awtomatig. Mae'n bosibl na fyddai'r ffeithiau a allai arwain at ganlyniad o'r fath mewn achos cyfreithiol yn peri i dribiwnlys achos anghymhwyso aelod am bum mlynedd fel rheol.

Etholiadau Lleol

1.16 Fel rheol, mae'n debyg mai'r un fydd hyd y cyfnod anghymhwyso, p'un a fydd etholiadau yn cael eu cynnal yn fuan, neu rywbryd yn y dyfodol. Gall fod adegau weithiau pan fydd amseriad tribiwnlys achos a'r adeg y gallai cyfnod anghymhwyso ddod i ben yn peri i'r gosb gael effaith anghymesur. Dylai tribiwnlysoedd achos fod yn barod i wrando cyflwyniadau ynglŷn â pham y dylid amrywio hyd y cyfnod anghymhwyso dan amgylchiadau o'r fath.

1.17 Mae'r Uchel Lys wedi awgrymu y dylai tribiwnlysoedd achos fod yn amharod i ymyrryd ag ewyllys ddemocrataidd yr etholwyr. Gwnaed y sylw hwn mewn sefyllfa lle roedd yr aelod dan sylw wedi'i ailethol ers y digwyddiadau a arweiniodd at ei ddwyn gerbron y tribiwnlys achos a lle roedd yr etholwyr, y gellid cymryd eu bod yn gwybod am y digwyddiadau, wedi ailethol yr aelod serch hynny. Ond mewn penderfyniad arall, mae'r Uchel Lys wedi cydnabod bod y Senedd wedi darparu pŵer o'r fath yn benodol i dribiwnlysoedd achos a'i bod yn bosibl bod ymyrraeth o'r fath yn bris y mae angen ei dalu er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd leol. Ar brydiau, gall hyn olygu anghymwyso aelodau y mae eu hymddygiad wedi dangos eu bod yn anaddas i gyflawni'r cyfrifoldebau y mae'r etholwyr wedi'u hymddiried iddynt.

Gwahardd

1.18 Mae'n briodol gwahardd aelod pan nad yw'r amgylchiadau mor ddifrifol eu bod yn cyfiawnhau ei anghymhwyso, ond eto eu yn ddigon difrifol fel bod angen tawelu meddyliau'r cyhoedd a chael yr ymatebydd i sylweddoli pa mor ddifrifol yw'r mater a bod angen osgoi ei ailadrodd. Nid yw gwahardd aelod am lai na mis yn debygol o gael effaith o'r fath.

1.19 Mae'r ffactorau a all arwain at ddewis yr opsiwn hwn yn cynnwys:

a. Bod gweithredoedd yr atebydd wedi dwyn anfri ar swydd neu awdurdod yr aelod heb iddo gael ei ddyfarnu'n euog o dorri unrhyw baragraff arall o'r cod, nac yn euog o gyflawni trosedd sy'n dwyn cosb o dri mis o garchar o leiaf.

b. Y tebygolrwydd y ceir achosion pellach o fethu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad gan yr atebydd. (Pe ceid y fath achosion o fethu â chydymffurfio yn dilyn cyfnod pan oedd yr atebydd wedi'i wahardd, mae'n dra thebygol y bydd tribiwnlys achos yn y dyfodol, yn wyneb cyfeiriad at yr achos pellach hwnnw o dorri'r cod, yn dewis ei anghymwyso.)

1.20 Pan fydd yr atebydd wedi dwyn anfri ar yr awdurdod, bydd y tribiwnlys am ystyried a yw'r niwed a achoswyd i'r awdurdod mor ddifrifol ei fod yn cyfiawnhau ei anghymhwyso.

1.21 Tra bydd anghymhwysiad yn gymwys i aelodau pob awdurdod y mae Deddf 2000 yn berthnasol iddo, bydd gwaharddiad yn gyfyngedig i atal yr atebydd rhag bod yn aelod o'r awdurdod y canfuwyd bod ei god wedi'i dorri. Os yw'r ffeithiau sydd wedi arwain at dorri'r Cod mor ddifrifol eu bod yn golygu bod yr atebydd yn hollol anaddas i ddal swydd gyhoeddus, mae'n debyg mai ei anghymhwyso yn hytrach na'i wahardd fydd y gosb fwyaf priodol.

1.22 Gwrthodir talu lwfansau i aelod sydd wedi'i wahardd, yn ystod y cyfnod gwahardd. Mae hwn yn ffactor y dylai tribiwnlysoedd achos ei ystyried.

1.23 Nid yw gwahardd aelod yn opsiwn os yw'r aelod wedi ymddiswyddo neu os nad yw wedi'i ailethol i'r awdurdod dan sylw.

Rhannol Wahardd

1.24 Gallai'r opsiwn hwn fod yn briodol pan fo pryder ynghylch y ffaith y bernir bod yr atebydd yn ei chael yn anodd deall neu dderbyn y cyfyngiad sy'n cael ei osod ar ei weithredoedd gan y cod ymddygiad mewn perthynas â mater neu faes gweithgarwch penodol, ond nid yw'r anhawster yn effeithio ar allu'r atebydd i weithredu'n briodol mewn perthynas â materion eraill. Gallai'r tribiwnlys achos farnu bod gwahardd yr atebydd rhag cyflawni rhyw swyddogaeth benodol neu gyflawni cyfrifoldebau penodol (megis bod yn ddeiliad swydd benodol neu'n aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor penodol) yn ddigon i sicrhau na chaiff y cod ymddygiad ei dorri yn y fath fodd yn y dyfodol, tra'n sicrhau bod yr atebydd yn gallu gwneud cyfraniad effeithiol at waith arall y corff.

1.25 Gellir ystyried bod rhannol wahardd aelod hefyd yn gosb effeithiol o ran atebydd sy'n cyflawni swyddogaethau gweithredol i'r corff y mae'r cod ymddygiad yn berthnasol iddo.

1.26 Gwrthodir talu lwfansau i aelod sydd wedi'i rannol wahardd, o ran y cyfrifoldebau neu ddyletswyddau y mae'r aelod wedi'i wahardd rhag eu cyflawni.

Penderfyniad i Beidio ag Anghymhwyso Aelod, ei Wahardd neu ei Rannol Wahardd

1.27 Ymhlith yr amgylchiadau lle gall penderfyniad o'r fath fod yn briodol mae:

a. methiant anfwriadol i gydymffurfio â'r cod ymddygiad.

b. pan dderbynnir, er nad yw'r aelod wedi'i wahardd na'i rannol wahardd, nad yw'n debyg y ceir unrhyw achos pellach o fethu â chydymffurfio ar ran yr atebydd.

c. y ffaith nad achoswyd unrhyw niwed ac na allai unrhyw niwed o'r fath gael ei achosi o ganlyniad i fethu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad.

2. CAMAU I'W CYMRYD GAN DRIBIWNLYS ACHOS INTERIM

2.1 Nodir y pwerau sydd ar gael i dribiwnlys achos interim yn adran 78(1) o Ddeddf 2000 ac, yn y bôn, maent fel a ganlyn: peidio â gwahardd yr atebydd neu ei wahardd yn gyfan gwbl neu'n yn rhannol rhag bod yn aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod dan sylw.

2.2 Ni fydd unrhyw waharddiad yn para mwy na chwe mis neu (os yw'n fyrrach) weddill cyfnod yr aelod yn y swydd.

2.3 Yn achos gwaharddiad rhannol bydd angen i'r tribiwnlys achos interim benderfynu o ba weithgareddau y dylid gwahardd yr atebydd.

Nodau'r Tribiwnlys Achos Interim

2.4 Bydd y tribiwnlys achos interim yn ceisio cydbwyso ffactorau megis:

a. Ei gwneud yn bosibl i'r broses o ymchwilio i ymddygiad yr atebydd fynd yn ei blaen mor effeithiol a dirwystr â phosibl.

b. Sicrhau y terfir cyn lleied â phosibl ar fusnes yr awdurdod dan sylw yn ystod yr ymchwiliad.

c. Cydnabod na ddaethpwyd i unrhyw gasgliad pendant eto ynghylch dilysrwydd yr honiadau a wnaed yn erbyn yr atebydd.

d. Diogelu enw da'r awdurdod dan sylw.

e. Diogelu'r awdurdod dan sylw rhag her gyfreithiol.

2.5 Ni ddylid ystyried bod penderfyniad tribiwnlys achos interim i wahardd neu rannol wahardd yr atebydd yn gam disgyblu yn erbyn yr atebydd. Byddai cymryd camau disgyblu yn gynamserol adeg cynnal tribiwnlys achos interim.

Peidio â Gwahardd neu Rannol Wahardd

2.6 Nid yw'n debyg y caiff yr atebydd ei wahardd na'i rannol wahardd os yw'r tribiwnlys achos interim o'r farn, hyd yn oed pe câi'r honiad(au) eu profi, y byddai'r tribiwnlys achos yn annhebygol o wahardd, rhannol wahardd neu anghymhwyso'r atebydd, oni bai bod rhesymau cymhellol pam na all yr ymchwiliad fynd rhagddo yn effeithiol heb y cyfryw waharddiad.

2.7 Hyd yn oed pan fyddai'r honiadau, pe caent eu profi, yn arwain at yr atebydd yn cael ei wahardd neu ei rannol wahardd, bydd tribiwnlysoedd achos interim yn amharod i wahardd neu rannol wahardd atebydd oni bai bod rhesymau cymhellol bod angen y cyfryw waharddiad er budd y cyhoedd cyn cwblhau'r ymchwiliad ac atgyfeirio'r achos ar ôl hynny at dribiwnlys achos.

Gwahardd neu Rannol Wahardd

2.8 Mae'n debyg y bydd yn briodol gwahardd neu rannol wahardd yr atebydd os oes pryderon dilys y gallai ymyrryd â thystiolaeth neu dystion sy'n berthnasol i'r mater yr ymchwilir iddo.

2.9 Gall hefyd fod pryderon na ellir cynnal busnes yr awdurdod dan sylw yn effeithiol pe bai'r atebydd yn parhau yn y swydd tra bod yr honiad yn ei erbyn yn dal heb ei ddatrys. Er enghraifft, os bydd y gydberthynas rhwng yr atebydd ac aelodau eraill o'r awdurdod dan sylw, neu staff allweddol o'r awdurdod dan sylw, yn chwalu yn sgîl yr honiadau neu os bydd yr honiadau eu hunain yn peri i'r gydberthynas rhyngddynt chwalu, efallai y bydd yn briodol gorchymyn i'r atebydd gael ei wahardd neu ei rannol wahardd.

2.10 Gall rhai honiadau godi materion sydd mor ddifrifol fel y byddai'r cyhoedd yn colli hyder yn yr awdurdod dan sylw pe bai'r atebydd yn parhau yn y swydd tra bod yr honiadau yn dal heb eu datrys. Byddai'n briodol gwahardd neu rannol wahardd yr atebydd o dan amgylchiadau o'r fath.

2.11 Fel arfer bydd y tribiwnlys achos interim yn ceisio cymryd y camau lleiaf posibl i sicrhau bod yr awdurdod dan sylw yn gweithredu'n gywir, y cynhelir hyder y cyhoedd ac y cwblheir yr ymchwiliad yn effeithiol. Felly bydd gwahardd yr atebydd yn gyfan gwbl yn opsiwn a ddewisir dim ond os na all y tribiwnlys achos interim gyflawni'r nodau hynny drwy beidio â gorchymyn i'r atebydd gael ei wahardd neu drwy orchymyn iddo gael ei rannol wahardd.

2.12 Gall gwaharddiad rhannol fod yn arbennig o briodol yn achos atebydd sy'n cyflawni swyddogaethau gweithredol i'r corff y mae'r cod ymddygiad yn berthnasol iddo. Gallai gwaharddiad rhannol o dan amgylchiadau o'r fath gynnal hyder y cyhoedd yn yr awdurdod a galluogi'r awdurdod i weithredu'n effeithiol heb amddifadu'r etholwyr o gynrychiolaeth gan yr atebydd.

3. TRIBIWNLYSOEDD APÊL – TROSOLWG

3.1 Pan fydd tribiwnlys apêl yn penderfynu bod apelydd wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, mae'n rhaid i'r tribiwnlys benderfynu ai'r gosb a bennwyd gan y pwyllgor safonau perthnasol yw'r un briodol.

3.2 Rheolir swyddogaethau tribiwnlys apêl gan y rheoliadau canlynol:

Aelodau awdurdodau perthnasol ac eithrio awdurdodau'r heddlu	Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, OS 2001 Rhif 2281 ("Rheoliadau 2001")
Aelodau awdurdodau'r heddlu	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad) (Penderfyniadau Lleol) 2003, OS 2003 Rhif 1483 ("Rheoliadau 2003")

Mae'r swyddogaethau a'r cosbau sydd ar gael ym mhob achos yn wahanol fel y disgrifir yn yr adrannau canlynol.

3.3 Bydd y camau y penderfyna'r tribiwnlys achos eu cymryd yn anelu at gynnal a gwella safon yr ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau'r gwahanol gyrff y mae'r cod ymddygiad yn berthnasol iddynt. Felly, bwriad y camau gweithredu fydd rhybuddio neu atal yr apelydd penodol rhag unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol, a hefyd rybuddio eraill rhag gweithredu mewn modd cyffelyb.

3.4 Er bod yr adran hon yn cynnwys canllawiau cyffredinol ar y gosb y gellir ei phennu, mae'n bosibl y bydd angen i'r cyfnod gwirioneddol a osodir fod yn fwy neu'n llai er mwyn ystyried ffactorau gwaethygol neu liniarol. Ceir enghreifftiau (nad ydynt yn gynhwysfawr) o'r cyfryw ffactorau yn yr atodiad i'r adran hon.

3.5 Dylai tribiwnlysoedd apêl hefyd ystyried canlyniadau gwirioneddol gweithredoedd yr aelod, tra'n cadw mewn cof y canlyniadau posibl hyd yn oed os na chafwyd canlyniadau o'r fath.

3.6 Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys tariff cadarn y gellir ei ddefnyddio i gyfrifo hyd y gosb y dylid ei bennu mewn achosion penodol o dorri'r cod.

4. APELIADAU GAN AELODAU AWDURDODAU PERTHNASOL AC EITHRIO AWDURDODAU'R HEDDLU

4.1 Mae paragraff 9 o Reoliadau 2001 yn darparu, os bydd pwyllgor safonau yn penderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, y gall benderfynu:

a. nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r methiant hwnnw;

b. y dylid ceryddu'r aelod neu'r aelod cyfetholedig; neu

c. y dylid gwahardd neu rannol wahardd yr aelod neu'r aelod cyfetholedig rhag bod yn aelod o'r awdurdod am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis.

4.2 Mae paragraff 12 o Reoliadau 2001 yn darparu bod yn rhaid i dribiwnlys apêl:

a. cadarnhau penderfyniad y pwyllgor safonau bod y cod ymddygiad wedi'i dorri a naill ai:

i. cymeradwyo unrhyw gosb a bennwyd gan y pwyllgorau safonau, neu

ii. cyfeirio'r mater yn ôl at y pwyllgor safonau gydag argymhelliad y dylid pennu cosb wahanol; neu

b. gwyrdroi penderfyniad y pwyllgor safonau bod y cod ymddygiad wedi'i dorri.

4.3 Am fod yn rhaid i dribiwnlys apêl sy'n cadarnhau i'r cod ymddygiad gael ei dorri gymeradwyo'r gosb a bennwyd gan y pwyllgor safonau neu argymell y dylid pennu cosb wahanol, ystyrir mai'r unig gosbau sydd ar gael i dribiwnlys yw'r rhai y gellir eu pennu gan y pwyllgor safonau ei hun. O dan baragraff 9(2) o Reoliadau 2001, nid yw argymhelliad tribiwnlys apêl yn rhwymo'r pwyllgor safonau.

Gwahardd

4.4 Pan fo'r amgylchiadau yn ddigon difrifol fel mai gwaharddiad yw'r gosb briodol er mwyn tawelu meddyliau'r cyhoedd a chael yr apelydd i sylweddoli pa mor ddifrifol yw'r mater a bod angen osgoi ei ailadrodd.

4.5 Ymhlith y ffactorau a all arwain at ddewis yr opsiwn hwn mae:

a. pryder bod gweithredoedd yr apelydd wedi dwyn anfri ar y corff y mae'n ei wasanaethu, neu wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol.

b. pryder ynghylch y tebygolrwydd y ceir achosion pellach o fethu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad gan yr apelydd.

Rhannol Wahardd

4.6 Gallai'r opsiwn hwn fod yn briodol os oes pryder ynghylch y ffaith y bernir bod yr apelydd yn ei chael yn anodd deall neu dderbyn y cyfyngiad sy'n cael ei osod ar ei weithredoedd gan y cod ymddygiad mewn perthynas â mater neu faes gweithgarwch penodol, ond nid yw'r anhawster yn effeithio ar allu'r apelydd i weithredu'n briodol mewn perthynas â materion eraill. Gallai'r tribiwnlys apêl farnu bod gwahardd yr apelydd rhag cyflawni rhyw swyddogaeth benodol neu gyflawni cyfrifoldebau penodol (megis bod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor penodol) yn ddigon i sicrhau na chaiff y cod ymddygiad ei dorri yn y fath fodd yn y dyfodol, tra'n sicrhau bod yr apelydd yn gallu gwneud cyfraniad effeithiol at waith arall y corff.

4.7 Gellir ystyried bod rhannol wahardd aelod hefyd yn gosb effeithiol o ran apelydd sy'n cyflawni swyddogaethau gweithredol i'r corff y mae'r cod ymddygiad yn berthnasol iddo.

Ceryddu

4.8 Gall fod yn briodol ceryddu aelod mewn sefyllfa lle mae tribiwnlys apêl yn canfod i'r cod ymddygiad gael ei dorri, ond nid yw'r amgylchiadau mor ddifrifol ag i gyfiawnhau ei wahardd neu ei rannol wahardd. Gallai hyn gynnwys y canlynol, er enghraifft:

a. mân achos o dorri'r cod yn fwriadol nad yw wedi dwyn anfri ar y corff y mae'r aelod yn ei wasanaethu, na gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol.

b. mân achos o dorri'r cod lle mae'r aelod yn derbyn yn llawn fod yr ymddygiad yn amhriodol a/neu mae wedi cymryd camau pendant i liniaru effaith torri'r cod.

Nid oes Angen Cymryd Unrhyw Gamau mewn Perthynas â Methiant

4.9 Ymhlith yr amgylchiadau lle y gall y cyfryw benderfyniad fod yn briodol mae:

a. methiant anfwriadol i gadw at y cod ymddygiad.

b. pan dderbynnir, er nad yw'r aelod wedi'i wahardd na'i rannol wahardd, nad yw'n debyg y ceir unrhyw achos pellach o fethu â chydymffurfio ar ran yr apelydd.

5. APELIADAU GAN AELODAU AWDURDODAU'R HEDDLU

5.1 Mae paragraff 7 o Reoliadau 2003 yn darparu, os bydd pwyllgor safonau yn penderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, y gall benderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r methiant hwnnw.

5.2 Os bydd pwyllgor safonau o'r farn bod cosb yn briodol gall bennu un o'r canlynol, neu unrhyw gyfuniad ohonynt (yn ddarostyngedig i baragraff 5.3 isod):

a. ceryddu'r aelod;

b. cyfyngu ar fynediad yr aelod i adeilad yr awdurdod a'r defnydd y gall yr aelod hwnnw ei wneud o adnoddau'r awdurdod am hyd at dri mis, ar yr amod bod unrhyw gyfyngiad o'r fath yn rhesymol ac yn gymesur i'r achos o dorri'r cod ac nad yw'n cyfyngu'n ormodol ar allu'r aelod i gyflawni ei swyddogaethau fel aelod;

c. gwahardd neu rannol wahardd yr aelod am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis;

d. gofyniad bod yr aelod yn cyflwyno ymddiheuriad ysgrifenedig;

e. gofyniad bod yr aelod yn cael hyfforddiant;

f. gofyniad bod yr aelod yn dilyn rhaglen gymodi;

g. gwahardd neu rannol wahardd yr aelod am hyd at dri mis neu hyd nes y bydd yn cydymffurfio ag (ch)-(e) uchod.

5.3 Os bydd pwyllgor safonau o'r farn bod cosb yn briodol ac nad yw'r aelod yn aelod mwyach o unrhyw awdurdod y mae'r pwyllgor safonau yn cyflawni swyddogaethau o ran Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas ag ef, bydd yn ceryddu'r unigolyn.

5.4 Mae paragraff 13 o Reoliadau 2003 yn darparu bod yn rhaid i'r tribiwnlys apêl gadarnhau neu wrthod, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ganfyddiad y pwyllgor safonau.

5.5 Os bydd y tribiwnlys apêl yn cadarnhau'r canfyddiad, neu ran o'r canfyddiad, gall wneud y canlynol:

a. cymeradwyo unrhyw gosb a bennwyd;

b. ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor bennu cosb; neu

c. ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor bennu cosb wahanol i'r un a bennwyd eisoes.

Atodiad

FFACTORAU PERTHNASOL POSIBL Y GALL FOD ANGEN EU HYSTYRIED WRTH BENDERFYNU AR Y GOSB BRIODOL

Ffactorau Lliniarol

- Cred ddidwyll (er yn gyfeiliornus) nad oedd y weithred dan sylw yn gyfystyr â methu â dilyn darpariaethau'r cod ymddygiad, yn enwedig lle mae'r cyfryw farn wedi'i ffurfio ar ôl cael cyngor priodol.
- Tystiolaeth wedi'i hategu fod afiechyd wedi effeithio ar weithredoedd yr aelod.
- Hanes blaenorol o wasanaeth da.
- Cyfnod byr o wasanaeth neu ddiffyg profiad mewn rôl benodol.
- Cydnabyddiaeth gan yr aelod ei fod wedi methu â dilyn y cod; cydweithredu â'r broses o unioni effeithiau'r methiant hwnnw; ymddiheuriad i'r bobl yr effeithiwyd arnynt lle y bo hynny'n briodol; y ffaith mai'r aelod ei hun a roddodd wybod am yr achos o dorri'r cod.
- Cydweithredu â'r swyddog ymchwilio a'r pwyllgor safonau/Panel Dyfarnu.
- Cydymffurfio â'r cod ers y digwyddiadau a arweiniodd at y dyfarniad.
- Gweithredoedd a all fod wedi cynnwys torri'r cod, ond a oedd o ryw fudd i'r cyhoedd.
- Cythrudd
- Byrbwylltra yn ystod dadl yn siambr y cyngor.

Ffactorau Gwaethygol

- Mynd ati'n fwriadol i sicrhau elw personol neu fantais wleidyddol (i'r aelod neu eraill) ar draul y cyhoedd drwy fanteisio ar ei rôl fel aelod.
- Achosion mynych o dorri'r cod.
- Camddefnyddio pwerau neu ddefnyddio arian cyhoeddus er mwyn sicrhau mantais wleidyddol.
- Gweithredoedd a ddygodd anfri ar y cyngor neu ar wasanaethau cyhoeddus.
- Anonestrwydd.
- Achos o dorri'r cod yn fwriadol.
- Parhau i wadu'r ffeithiau er gwaethaf tystiolaeth glir i'r gwrthwyneb; herio'r ymchwiliad a'r dyfarniad hyd y diwedd.
- Ceisio'n annheg i roi'r bai ar bobl eraill.
- Parhau â phatrwm ymddygiad sy'n arwain at achosion mynych o dorri darpariaethau'r cod.
- Methu â thalu sylw i gyngor neu rybuddion priodol, neu i ganfyddiadau blaenorol o fethiant i ddilyn darpariaethau'r cod.

Sleidiau a Deunyddiau ar Gyfer y Gweithdy

1C

Castell Conwy

(Tudalen Wag)

COFRESTRAU DIDDORDEB
REGISTERS OF INTERESTS

PWRPAS COFRESTRU:
PURPOSE OF REGISTRATION:

- Sicrhau y gwneir penderfyniadau er budd y cyhoedd
  Ensure decisions taken in the public interest

- Dadansoddi natur, graddfa ac effaith y diddordeb
  Analyse the nature, extent and impact of the interest

- Gall ganiatáu cyfranogiad
  May allow participation

- Gall osgoi her gyfreithiol i'r Awdurdod (rhagfarn)
  May avoid legal challenge to the Authority (bias)

- Gall osgoi canlyniadau i Aelodau
  May avoid consequences for Members



COFRESTRAU DIDDORDEB
REGISTERS OF INTERESTS

Y TAIR COFRESTR
THE THREE REGISTERS:

1. Cofrestr Sefydlog (Cyn Cofrestru)
   Standing Register (Pre-Registration)

2. Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch
   Gifts and Hospitality Register

3. Cofrestr Datganiadau mewn Cyfarfodydd
   Declarations in Meetings Register



COFRESTRAU DIDDORDEB
REGISTERS OF INTERESTS

COFRESTR SEFYDLOG (CYN COFRESTRU)
STANDING REGISTER (PRE-REGISTRATION)

- Nid yw'n berthnasol i Gynghorau Cymuned
  Does not apply to Community Councils
- Yn agored i'w harchwilio gan y cyhoedd (ar-lein/yn rhyngweithiol?)
  Open to public inspection (online/interactive?)
- Rhaid cofrestru newidiadau cyn pen 28 diwrnod
  Changes must be registered within 28 days
- Yn ymwneud â:
  Covers:
  - Cyflogaeth/ busnes
    Employment/business
  - Diddordebau ariannol eraill
    Other financial interests
  - Daliadau tir
    Landholdings
  - Cyrff Allanol
    Outside Bodies
- Tor-amod Technegol
  Technical breach
  - prawf trothwy
    threshold test
  - effaith gronnol
    cumulative impact
  - gwerth tystiolaethol
    evidential value



COFRESTRAU DIDDORDEB
REGISTERS OF INTERESTS

RHODDION A LLETYGARWCH
GIFTS AND HOSPITALITY

- Nid yw'n berthnasol i Gynghorau Cymuned
  Does not apply to Community Councils
- Yn agored i'w harchwilio gan y cyhoedd (ar-lein/yn rhyngweithiol?)
  Open to public inspection (online/interactive?)
- Rhaid cofrestru o fewn 28 diwrnod o'u derbyn
  Must be registered within 28 days of receipt
- Dylid ei chefnogi gan y Protocol lleol ar gyfer Rhoddion a Lletygarwch
  Should be supported by local Gifts and Hospitality Protocol
- Y trothwy ariannol a weithredir yn lleol
  Financial limit applied locally
- Sgôp ar gyfer safonau cenedlaethol?
  Scope for national standards?
- Tor-amod technegol
  Technical breach
  - yn annhebygol o gwrdd â'r prawf trothwy
    unlikely to meet threshold test
  - ond effaith gronnol
    cumulative impact
  - gwerth tystiolaethol
    evidential value



DATGANIADAU MEWN CYFARFODYDD
DECLARATIONS IN MEETINGS

- Yn berthnasol hefyd i'r Cynghorau Cymuned
  Also applies to Community Councils
- Yn agored i'w harchwilio gan y cyhoedd (ar-lein/yn rhyngweithiol?)
  Open to public inspection (online/interactive?)
- Diddordeb Personol
  Personal interest
  - datgan a chyfranogi
    declare and participate
  - tor-amod technegol
    technical breach
- Diddordeb Personol sy'n rhagfarnu
  Personal and prejudicial interest
  - datgan a gadael y cyfarfod
    declare and withdraw
  - risg ddifrifol i'r Awdurdod a'r Aelod
    serious risk to the Authority and the Member
- A oes caniatâd arbennig wedi ei adeiladu i mewn?
  Is there a "built in" dispensation?
- Os nad oes, a ddylid gofyn am ganiatâd arbennig?
  If not, apply for a dispensation?



COFRESTRAU DIDDORDEB
REGISTERS OF INTERESTS

DIDDORDEBAU PERSONOL
PERSONAL INTERESTS

10(2) o'r Côd:
10(2) of the Code:
(a)Adlewyrchu'r Gofrestr Sefydlog
Reflects the Standing Register
(b) Gwrthdaro rhwng y rôl ehangach a'r ward
Conflict between wider role and ward
(c)- lles/ariannol
- *wellbeing/financial*
- diddordebau cysylltiadau personol agos
- *interests of close personal associates*

Ystyriaethau
Considerations
- Safon wrthrychol
- *Objective standard*
- Angen ond cyswllt yn unig
- *Requires only a link*
- Diffiniad o les
- *Definition of wellbeing*
- Cysylltiadau personol agos gan gynnwys animws
- *Close personal associate includes animus*
- Datganiadau
- *Declarations*
- Sylwadau/cyflwyniadau y tu allan i gyfarfodydd
- *Submissions outside meetings*



COFRESTRAU DIDDORDEB
REGISTERS OF INTERESTS

DIDDORDEBAU SY'N RHAGFARNU (1)
PREJUDICIAL INTERESTS (1)

12(1) y Côd : os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i **aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol (1) fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol (2) fel y bydd yn debygol (3) o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus (4).**"

12(1) of the Code :

"… where you have a personal interest in any business of your Authority you also have a prejudicial interest in that business if the interest is one which a ***member of the public with knowledge of the relevant facts (1) would reasonable regard (2) as so significant (3) that it is likely to prejudice your judgment of a public interest (4).***"



DIDDORDEBAU SY'N RHAGFARNU (2)
PREJUDICIAL INTERESTS (2)

Ystyriaethau
Considerations

•Prawf gwrthrychol
•*Objective test*
•Angen dadansoddiad trwyadl
•*Requires rigorous analysis*
•Sensitif o ran y ffeithiau
•*Fact sensitive*
•Risg uchel
•*High risk*
•Eithriadau wedi cael "eu hadeiladu i mewn"
•*"Built in" dispensations*
•Cyflwyno cais i'r Pwyllgor Safonau am ganiatâd arbennig?
•*Apply to the Standards Committee for dispensation?*
•Fel arall, RHAID
•*Otherwise MUST :*

- gadael yr ystafell pan mae'r mater yn cael ei drafod
- *leave the room when the matter is under discussion*
- peidio â dylanwadu ar y penderfyniad
- *not influence the decision*
- peidio â chyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu lafar
- *not make written or oral representations*



COFRESTRAU DIDDORDEB
REGISTERS OF INTERESTS

RÔL SICRWYDD Y PWYLLGOR SAFONAU
ASSURANCE ROLE OF THE STANDARDS COMMITTEE

- Dyletswydd Bersonol Aelodau
- *Personal duty on Members*
- Adolygiad blynyddol?
- *Annual review?*
    - 28 diwrnod
    - *28 days*
    - Cyrff Allanol
    - *Outside Bodies*
    - Methiant i lenwi ffurflenni mewn cyfarfodydd
    - *Failure to complete forms in meetings*
    - Datganiadau anghyflawn e.e. Eitem ar y Rhaglen / Diddordeb Personol neu Ddiddordeb Personol ac un sy'n rhagfarnu
    - *Incomplete declarations e.g. Agenda item / Personal or Personal and Prejudicial?*
    - Datganiadau sy'n or-ofalus heb fod raid
    - *Unnecessarily cautious declarations*
    - Datganiadau cyffredinol
    - *Blanket declarations*
- Atgoffa'n flynyddol?
- *Annual reminder?*
- Sicrhau ansawdd yn barhaus
- *On going quality assurance*
- Cyngor Cymuned
- *Community Council*



COFRESTRAU DIDDORDEB
REGISTER OF INTERESTS

MYNEGAI
INDEX

1. Ffurflen Gofrestru – Y Gofrestr Sefydlog
   Registration Form – Standing Register

2. Ffurflen Gofrestru – Rhoddion a Lletygarwch
   Registration Form – Gifts and Hospitality

- Protocol Rhoddion a Lletygarwch
- *Gifts and Hospitality Protocol*

3. Ffurflen Gofrestru – Mewn Cyfarfodydd
   Registration Form – In Meetings

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

CÔD YMDDYGIAD AELODAU

COFRESTR O DDIDDORDEBAU'R AELODAU

Datganiad o ddiddordeb personol i'w roddi ar Gofrestr gyhoeddus o ddiddordebau'r Aelodau

Enw'r Cynghorydd ....

Dan gyfraith gwlad a than Gôd Ymddygiad y Cyngor rhaid i chwi ddatgan diddordebau personol, bydd raid i chi gofnodi rhai diddordebau personol mewn cofrestr gyhoeddus a statudol a hynny cyn pen 28 diwrnod i'r dyddiad pryd y mabwysiadwyd Côd Ymddygiad yr Awdurdod neu cyn pen 28 diwrnod i'ch ethol (os digwyddodd hynny'n hwyrach) neu eich penodi i swydd (os digwyddodd hynny'n hwyrach) a bydd raid i chi ddiweddaru'r wybodaeth cyn pen 28 diwrnod i unrhyw newid. (Mae eithriad ar gyfer datgan 'gwybodaeth sensitif' a chewch gyngor gan y Swyddog Monitro ar y mater hwn).

Os gwelwch yn dda nodwch fanylion yn y bylchau isod am yr holl ddiddordebau hynny y mae'n rhaid i chwi, dan Gôd Ymddygiad yr Aelodau, eu cofrestru. Pan fo'n berthnasol dywedwch 'Dim'. Cofiwch y bydd raid i chi ddatgan unrhyw ddiddordeb perthnasol (gan gynnwys y rheini a nodwyd yn y Gofrestr hon) pan fo'r rheini yn ymwneud ag unrhyw fater sydd dan sylw mewn cyfarfod - trowch at Gôd Ymddygiad y Cyngor am gyfarwyddyd.

RHAN 1: DIDDORDEBAU ARIANNOL
1.1 Rhowch fanylion am unrhyw waith neu fusnes yr ydych yn ei gynnal.

1.2 Nodwch enw unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, ac enw unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol am hynny.
1.3 Nodwch enw unrhyw berson, ac eithrio enw eich awdurdod, sydd wedi cyflwyno tâl i chi unai mewn cysylltiad â'ch ethol neu yng nghyswllt unrhyw gostau eraill yr aethoch iddynt wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Aelod.
1.4 Nodwch enw unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod ac mae gennych chi ddiddordeb buddiannol mewn dosbarth o warannau y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na gwerth enwol o £25,000 neu un canfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau cyhoeddedig y corff hwnnw.
1.5 Disgrifiwch unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffirm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn Gyfarwyddwr arno ac yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol am hynny, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir ym mharagraff 1.4 uchod.

1.6 Rhowch gyfeiriad neu ddisgrifiad arall (sy'n ddigon i nodi'r lleoliad) o unrhyw dir y mae gennych ddiddordeb buddiannol ynddo ac sydd yn ardal y Cyngor hwn.

* Mae hyn yn golygu bod yn berchennog, yn landlord neu'n denant dir neu eiddo (gan gynnwys eich cartref), ac eithrio pan fo hynny'n digwydd dan ymddiriedolaeth

1.7 Rhowch gyfeiriad neu ddisgrifiad arall (sy'n ddigon i nodi'r lleoliad) o unrhyw dir y mae gennych ddiddordeb buddiannol ynddo pan fo'r Cyngor yn landlord a'r tenant yn ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn Gyfarwyddwr arno ac yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol am hynny, neu gorff o'r math a ddisgrifir ym mharagraff 1.4 uchod.

1.8 Rhowch gyfeiriad neu ddisgrifiad arall (sy'n ddigon i nodi'r lleoliad) o unrhyw dir yn ardal y Cyngor y mae gennych drwydded yn ei gylch (unai ar ben eich hun neu ar y cyd gyda rhai eraill) i'w ddal am 28 diwrnod neu ragor.

RHAN 2 : DIDDORDEBAU ERAILL

Nodwch a ydych yn aelod neu'n dal swydd rheoli cyffredinol i :

2.1 gorff yr etholwyd, y penodwyd neu yr enwebwyd chwi gan y Cyngor i fod arno fel cynrychiolydd y Cyngor.

2.2 awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.
2.3 cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol.
2.4 corff y mae dylanwadu ar farn neu ar bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion.
2.5 Undeb Llafur neu gymdeithas broffesiynol.
2.6 clwb, cymdeithas neu gorff preifat sy'n gweithredu yn ardal y Cyngor.

Ar ôl llenwi'r ffurflen gofynnir i chwi ei llofnodi a nodi'r dyddiad ar y llinell isod a'i dychwelyd wedyn i'r Swyddog Monitro, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW.

Llofnodwyd.....Dyddiad .....

Printiwch eich enw llawn ... .

Hefyd nodwch os gwelwch yn dda y bydd raid i chi roi gwybod i'r Swyddog Monitro am unrhyw newid i'r diddordebau a ddatgelir uchod a hynny cyn pen 28 diwrnod i fod yn ymwybodol ohonynt.

Derbyniwyd gan y Swyddog Monitro .....

Dyddiad.....

CYNGOR SIR YNYS MÔN

DATGANIAD GAN AELODAU AC AELODAU CYFETHOLEDIG EU BOD WEDI DERBYN RHODD AC/NEU LETYGARWCH

Darllenwch y Canllawiau isod a nodir yn y Protocol ar Roddion a Lletygarwch yn 5.9 yng Nghyfansoddiad y Cyngor os gwelwch yn dda ac yna cwblhewch y manylion isod:

Enw'r Aelod/Aelod Cyfetholedig	
Enw'r Rhoddwr/Darparwr	
Disgrifiad o'r rhodd neu'r lletygarwch	
Gwerth/amcangyfrif o werth y rhodd/lletygarwch	
Pryd a lle derbyniwyd y rhodd/lletygarwch	
Oedd unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n cyfiawnhau derbyn y rhodd neu'r lletygarwch hwn?	
A oes gennych unrhyw gyswllt gyda'r person neu'r sefydliad sy'n rhoi'r rhodd neu'r lletygarwch un ai yn eich swyddogaeth fel cynghorydd neu fel arall? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda	
Manylion am unrhyw gontract y mae gan y Rhoddwr/Darparwr diddordeb i'w sicrhau	
Sylwadau ychwanegol (os o gwbl)	
Llofnod	
Dyddiad	

DATGANIADAU O DDIDDORDEB GAN AELODAU MEWN CYFARFODYDD

Enw'r Aelod:
Enw'r Cyfarfod:
Dyddiad y Cyfarfod:
Eitem ar y Rhaglen (rhif a theitl):

Rhaid i Aelodau lenwi blychau 1, 2, 3 a 4 isod.

1. Natur y diddordeb personol yw:

2. Busnes y Cyngor y mae'r diddordeb personol yn ymwneud ag ef yw:

3. Rhaid i'r Aelodau roi tic mewn un blwch

☐ **Nid yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** ac fe gymerais ran yn yr eitem **NEU**

☐ **Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** a gadewais y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod **NEU**

☐ **Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** ond rwyf wedi cael caniatâd arbennig.

*Diddordeb sy'n rhagfarnu yw diddordeb personol sydd mor sylweddol fel y byddai aelod gwybodus o'r cyhoedd yn credu'n rhesymol na fyddai'r Aelod yn gallu gweithredu ar y mater er budd y cyhoedd.

4. Yn fy marn i, mae fy niddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu NEU sydd ddim yn rhagfarnu oherwydd:

Llofnod..... Dyddiad Llofnodi.....

DYLID RHOI'R FFURFLEN HON AR ÔL EI CHWBLHAU I AELOD O STAFF Y GWASANAETHAU PWYLLGOR YN YSTOD, NEU'N UNION AR ÔL, Y CYFARFOD.

Sleidiau a Deunyddiau ar Gyfer

Sesiwn lawn 2

Ffynnon St. Winifred, Treffynnon

(Tudalen Wag)

STANDARDS CONFERENCE - LLANDUDNO

CYNHADLEDD SAFONAU - LLANDUDNO

Presentation on the System for Dealing with Complaints by Councillors against other Councillors in Swansea
19th April 2013

Cyflwyniad ar y System ar gyfer Ymdrin â Chwynion gan Gynghorwyr yn erbyn Cynghorwyr eraill yn Abertawe
19 Ebrill 2013



1. Process

1. Proses

A Welsh Audit Office report on the Council in July 2010 included the following recommendation:-

Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y Cyngor ym mis Gorffennaf 2010 yn cynnwys yr argymhelliad canlynol:-

"Explore ways of strengthening accountability for members behaviour and reducing the role of referral to the Ombudsman. This might include consideration of a more active role for the Standards Committee and/or developing internal mechanisms for resolving complaints".

"Archwilio ffyrdd o gryfhau atebolrwydd ar gyfer ymddygiad aelodau a lleihau'r rôl ogyfeirio i'r Ombwdsmon. Gallai hyn gynnwys ystyried rôl fwy actif i'r pwyllgor safonau a/neu ddatblygu dulliau mewnol ar gyfer datrys cwynion".



2. Process (continued)
2. *Proses (parhad)*

- Swansea was featuring regularly in the Ombudsman's reports.
- *Roedd Abertawe'n ymddangos yn rheolaidd yn adroddiadau'r Ombwdsmon.*

- Standards Committee invited the Leader of the Council, the Leaders of the other political groups, the Chair of Council, the Chief Executive and the Ombudsman to attend Committee meetings to discuss their views on the position and what could be done to improve matters.
- *Gwahoddodd y Pwyllgor Safonau Arweinydd y Cyngor, Arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill, Cadeirydd y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Ombwdsmon i gyfarfodydd Pwyllgor i drafod eu barn am y sefyllfa a'r hyn y gellir ei wneud i wella pethau.*

- Following those meetings a separate group was convened including all group leaders, the Chair of Standards Committee, the Chief Executive and the Monitoring Officer. The Ombudsman attended meetings of this group
- *Yn dilyn y cyfarfodydd hynny, galwyd grŵp ar wahân ynghyd a oedd yn cynnwys yr holl arweinwyr grŵp, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro. Daeth yr Ombwdsmon i gyfarfodydd y grŵp hwn.*



3. Process (continued)

3. Proses (parhad)

- The informal group reached a consensus on the best way forward
- *Daeth y grŵp anffurfiol i gonsensws ar y ffordd orau i barhau.*

- Correspondence took place with the Ombudsman to clarify certain issues.
- *Gohebwyd â'r Ombwdsmon i egluro rhai materion.*

- The Council adopted the process and it has been fully operational since May 2012.
- *Mabwysiadodd y Cyngor y broses ac mae wedi bod ar waith ers mis Mai 2012.*



4. Key Features
4. Nodweddion Allweddol

- The system involves a mediation panel of all political group leaders.
- *Mae'r system yn cynnwys panel cyfryngu o holl arweinwyr y grwpiau gwleidyddol.*

- The Panel must reach an unanimous agreement on the course of action to resolve a complaint.
- *Rhaid i'r panel ddod i gytundeb unfrydol ar y camau gweithredu i ddatrys cwyn.*

- The system does not apply to a failure to declare an interest.
- *Nid yw'r system yn berthnasol i fethu â datgan diddordeb.*

- So far, there has been a 100% success rate as the mediation Panel has not had to meet once!
- *Hyd yn hyn, cafwyd cyfradd lwyddiant o 100% gan nad yw'r panel cyfryngu wedi gorfod cyfarfod unwaith!*




Councillor v Councillor Complaints
Councillor wishes to raise complaint about conduct of another Councillor, as matter unable to be resolved at time of incident or soon thereafter (e.g. by way of apology)
Is complaint regarding a perceived failure to declare an interest?
NO
Complainant to approach Group Leader of Councillor subject to complaint (or Monitoring Officer if Cllr is non-aligned) with grievance
YES
Complaint forwarded to Monitoring Officer / Democratic Services Manager. Matter to be referred to Councillor Mediation Panel (CMP) to investigate possibility of internal resolution (within 10 working days of receipt of complaint)
NO
Can matter be resolved informally e.g. by way of late apology?
Within 3 working days of referral to Monitoring Officer / Democratic Services Manager
Invitation sent to all relevant parties to attend the CMP meeting. Response to invitation required within 5 working days.
Are all parties agreeable to internal resolution?
NO
YES
CMP convenes to consider matter
Does CMP reach unanimous agreement on required action to resolve issue?
NO
CMP unable to resolve issue.
YES
YES
YES
Does complainant remain aggrieved with decision of CMP?
Letter sent by Monitoring Officer to all parties confirming decision of CMP, together with details of any action required
Within 5 working Days of decision
Course of action agreed.
NO
Matter resolved. Parties involved carry out agreed actions as directed by Group Leader.

Atodiad 1


Cynghorydd yn erbyn Cwynion gan Gynghorwyr
Mae Cynghorydd yn dymuno gwneud cwyn am ymddygiad Cynghorydd arall am nad oedd modd datrys y mater ar adeg y digwyddiad neu'n fuan wedi hynny (e.e. drwy ymddiheuro).
A yw'r gŵyn yn ymwneud â methiant canfyddedig i ddatgan diddordeb?
Na
Yr Achwynydd i fynd at Arweinydd Grŵp y Cynghorydd sy'n destun y gŵyn (neu'r Swyddog Monitro os nad yw'r Cynghorydd yn rhan o grŵp) i gyflwyno'r achwyniad.
Ydy
Ydy'r mater yn gallu cael ei ddatrys yn anffurfiol e.e. drwy ymddiheuriad hwyr?
Na
Anfonir y gŵyn i'r Swyddog Monitro/Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. Caiff y mater ei gyfeirio i'r Panel Cyfryngu Cynghorwyr i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatrysiad mewnol (o fewn 10 niwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn).
O fewn 3 diwrnod gwaith o'i gyfeirio i'r Swyddog Monitro/Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.
Anfonir gwahoddiad at yr holl bobl berthnasol i ddod i gyfarfod y Panel Cyfryngu Cynghorwyr.
A yw pawb yn fodlon ar ddatrysiad mewnol?
Na
Ydyn
Y Panel Cyfryngu Cynghorwyr yn cwrdd i ystyried y mater.
A yw'r Panel Cyfryngu Cynghorwyr yn dod i gytundeb unfrydol ar y camau gweithredu angenrheidiol i ddatrys y mater?
Na
Ni all y Panel Cyfryngu Cynghorwyr ddatrys y mater.
Ydy
Ydy
Ydy
Cytuno ar gamau gweithredu.
O fewn 5 niwrnod gwaith i'r penderfyniad.
Y Swyddog Monitro yn anfon llythyr at bawb dan sylw yn cadarnhau penderfyniad y Panel Cyfryngu Cynghorwyr, ynghyd â manylion unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.
A yw'r achwynydd yn anfodlon o hyd gyda phenderfyniad y Panel Cyfryngu Cynghorwyr?
Na
Mae'r mater wedi'i ddatrys. Mae'r bobl dan sylw yn cytuno i unrhyw gamau gweithredu yn ôl cyfarwyddyd Arweinydd y Grŵp.

Standard of Conduct expected by Members Rhondda Cynon Taf Local Protocol

Safon Ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau Protocol Lleol Rhondda Cynon Taf

Paul Lucas

Monitoring Officer
RCT County Borough Council

Swyddog Monitro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf



Origins / *Tarddiad*

- **Recommendation by Standards Committee**
- *Argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau*
- **Considered the Gwynedd Model**
- *Ystyriwyd Model Gwynedd*
- **Accepted by Full Council**
- *Derbyniwyd gan y Cyngor Llawn*



What the Protocol covers

Yr hyn sy'n destun sylw'r Protocol

- **Standard of Conduct expected**
- *Safon Ymddygiad a ddisgwylir*
- **Member/Member Complaints**
- *Cwynion Aelodau/Aelodau*
- **Read in conjunction with Code of Conduct**
- *Darllen ar y cyd â'r Côd Ymddygiad*
- **Informal Hearings**
- *Gwrandawiadau anffurfiol*
- **Sanction is Censure only**
- *Cerydd yn unig yw'r gosb*



Experiences of Operation of Protocol
Profiadau o ran gweithredu'r Protocol

- **Examples of cases dealt with**
- *Enghreifftiau o achosion sydd wedi cael sylw*

- **Need for some degree of formality**
- *Yr angen am rywfaint o ffurfioldeb*

- **Feedback from Chairman of Standards Committee**
- *Adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau*



SAFON GWYNEDD.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth gynghorwyr Cyngor Gwynedd wrth ymdrin â'i gilydd. Dylid ei darllen ar y cyd hefo'r Côd Ymddygiad i Aelodau a'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog. Mae'n ychwanegu at y dogfennau hynny ac nid tynnu oddi wrthynt.

Disgwylir i aelodau o Gyngor Gwynedd :-

Ymddygiad cyhoeddus:

- Ddangos parch i'w gilydd.
- Beidio â gwneud sylwadau dilornus personol am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi unrhyw beth sarhaus am ei gilydd.
- Beidio â gwneud honiadau maleisus am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi neu ledaenu gwybodaeth ffug am ei gilydd.
- Ddangos parch i gyfartaledd ac amrywiaeth.

Ymddygiad mewn cyfarfodydd:

- Ymddwyn yn urddasol yn y Siambr.
- Ddangos parch i'r Cadeirydd ac ufuddhau i'w ddyfarniadau.
- Beidio â defnyddio iaith anweddus na gwneud sylwadau hiliol neu sy'n rhagfarnu yn erbyn carfan o gymdeithas.

Cyfrinachedd:

- Gadw cyfrinachedd papurau eithriedig ac unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt yn gyhoeddus.
- Beidio rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg na'r cyhoedd.
- Ddychwelyd papurau cyfrinachol.
- Beidio defnyddio gwybodaeth gyfrinachol i ddibenion eraill nas bwriadwyd.

Aelodau lleol:

- Gydweithio gydag aelodau wardiau cyfagos er lles y gymdogaeth.
- Os yw'n ymdrin ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag etholaeth aelod arall:
    - Egluro wrth unrhyw un sy'n gofyn cymorth nad ef/hi yw'r aelod lleol
    - Roi gwybod i'r aelod lleol oni bai y byddai hynny yn torri cyfrinachedd

TREFN DATRYS LEOL CYNGOR GWYNEDD

TREFN AR GYFER YMDRIN Â HONIADAU FOD AELOD WEDI TORRI'R PROTOCOL CYSWLLT AELOD-SWYDDOG NEU SAFON GWYNEDD

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog yn arf bwysig i hybu cydweithrediad da rhwng aelodau a swyddogion o fewn y Cyngor a thrwy hynny caniatáu i'r cyngor gyflawni ei ddyletswyddau yn y modd mwyaf effeithiol a phroffesiynol. Yn yr un modd mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safon Gwynedd er mwyn hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodau. Mae'n bwysig felly bod modd ymdrin yn gyflym ac effeithiol gydag unrhyw honiad yn erbyn aelod ei fod wedi torri'r protocol neu'r Safon. Diben y drefn leol hon yw cyflwyno dull syml a hawdd i'w deall i ymdrin â honiadau o'r fath.

CAM 1 O'R DREFN

2. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno honiad dan y drefn hon anfon ei gwyn (yn achos swyddog yn dilyn ymgynghoriad gyda'i Bennaeth Adran) at y Swyddog Monitro. Yn dilyn derbyn cwyn bydd y Swyddog Monitro yn gweithredu fel a ganlyn :-

3. Yn y lle cyntaf bydd yn cyfeirio'r honiad at naill ai'r Dirprwy Swyddog Monitro neu'r Swyddog Priodoldeb a fydd yn cynnig cyngor cyffredinol i'r achwynydd. Ar y cam yma bydd modd cynghori os yw'r honiad yn dod o fewn y drefn hon, ynteu a ddylid ei chyfeirio at yr Ombwdsmon fel honiad o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau. Ni fydd y Swyddog Monitro yn ymdrin â'r honiad ar y cam yma er mwyn gwarchod ei gallu i roi cyngor i'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddarach yn y broses.

4. Os yn dilyn y cam cyntaf y bydd yr achwynydd yn dymuno bwrw ymlaen gyda honiad dan y drefn hon, gellir cyfeirio'r mater, naill a'i i gyfarfod cymodi dan Gam 2 neu i wrandawiad gan y Pwyllgor Safonau dan Gam 3.

CAM 2 O'R DREFN

5. Yng ngham 2 cynhelir cyfarfod rhwng y sawl sy'n cwyno, yr aelod y gwneir yr honiad yn ei erbyn, Arweinydd y Grŵp Gwleidyddol perthnasol a'r Prif Weithredwr a/neu'r Swyddog Monitro. Mae modd i swyddog gael cydweithiwr neu uwch swyddog o'r adran yn bresennol gydag ef/hi. Mae hefyd yn bosib ymdrin â'r mater yn absenoldeb swyddog mewn achosion eithriadol. Bwriad y cyfarfod yma fydd ceisio datrys y mater heb fynd ymhellach. Pe tybid byddai angen, gall y Prif Weithredwr alw ar gymorth gan y Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro neu'r Swyddog Priodoldeb i gynghori.

CAM 3 O'R DREFN

6. Y trydydd Cam yw gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Gofynnir i'r sawl sy'n cwyno gyflwyno sylwedd ei gŵyn yn ysgrifenedig a gofynnir am ymateb ysgrifenedig gan yr aelod dan sylw. Bydd y papurau hyn ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a ddarperir gan y naill ochr neu'r llall yn cael eu dosbarthu i aelodau y Pwyllgor Safonau.

7. Bydd gan y sawl sy'n cwyno a'r aelod sy'n destun y gwyn yr hawl i ymddangos gerbron y Pwyllgor Safonau ac i gyflwyno tystiolaeth gan dystion. Ni dderbynnir dystiolaeth ysgrifenedig yn unig gan dyst heb gytundeb yr ochr arall. Bydd gan y ddau hawl i gael cynrychiolydd neu gydweithiwr yn bresennol. Ni fydd y Cyngor yn talu cost cynrychiolwyr.

8. Pe byddai'r naill ochr neu'r llall yn dymuno peidio bod yn bresennol, neu yn methu ymddangos, gellir cynnal y gwrandawiad yn eu habsenoldeb.

9. Wedi i'r dystiolaeth gael ei chlywed gofynnir i'r ddwy ochor a'u cynrychiolwyr adael yr ystafell a bydd y Pwyllgor Safonau yn dod i benderfyniad ar yr honiad. Bydd y Swyddog Monitro wrth law i gynghori'r Pwyllgor.

10. Gall y Pwyllgor ddod i un o dri penderfyniad, sef :-

    a) Nad oes sail i'r honiad
    b) Bod sail i'r honiad, ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach
    c) Bod sail i'r honiad ac y dylid ceryddu'r Aelod.

    Yn ychwanegol fe all y Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â newid unrhyw gyfundrefnau neu gymryd unrhyw gam pellach.

MATERION ATODOL

11. Ni roddir cyhoeddusrwydd i enwau y partïon oni bai y penderfynir bod sail i'r honiad. Bydd y gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor Safonau yn eithriedig.

12. Nid oes raid dilyn camau 2 a 3 mewn trefn. Er bod modd i achwynydd sydd yn parhau yn anfodlon wedi y cyfarfod cymodi ofyn am i'r mater gael ei gyfeirio i wrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau, mae hefyd yn bosib i fater fynd yn syth gerbron Pwyllgor Safonau heb fynd i gyfarfod cymodi yn gyntaf. Mae'n bosib i aelod gynnig ymddiheuriad unrhyw adeg hyd at y gwrandawiad ond pe byddai'r gwrandawiad wedi ei drefnu a bod yr achwynydd yn dymuno peidio parhau â'i gwyn bydd angen cydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i ddiddymu'r gwrandawiad.

13. Nod y drefn hon yw ceisio datrys cwynion am aelodau yn gyflym ac yn effeithiol. Nid oes dim yn y drefn yn atal hawl unrhyw un rhag cyflwyno cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelod wedi torri y Côd Ymddygiad. Fe allai' Ombwdsmon, os yw o'r farn fod achos i'w ateb, gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Safonau, neu at Banel Dyfarnu Cymru, sydd â'r hawl i ddiarddel aelod am gyfnod o hyd at 5 mlynedd.

Sleidiau a Deunyddiau ar Gyfer y Gweithdy

2C



STANDARDS CONFERENCE
CYNHADLEDD SAFONAU

19 APRIL 2013
19 EBRILL 2013

VENUE CYMRU, LLANDUDNO

STANDARDS ISSUES FOR TOWN AND COMMUNITY COUNCILS AND SINGLE PURPOSE AUTHORITIES
MATERION SAFONAU AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED AC AWDURDODAU UN PWRPAS

Facilitators:
Hwyluswyr:

Town and Community Councils – Trevor Coxon, Monitoring Officer, Wrexham
Y Cynghorau Tref a Chymuned - Trevor Coxon, Swyddog Monitro, Wrecsam

Single Purpose Authorities – Iwan Jones, Snowdonia National Park
Awdurdodau Un Pwrpas - Iwan Jones, Parc Cenedlaethol Eryri



STRUCTURE

STRWYTHUR

i) Background to the Code

i) Cefndir y Cod

ii) Issues for Town and Community Councils

ii) Materion ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned

iii) How we address these in Wrexham

iii) Sut rydym yn mynd i'r afael â'r rhain yn Wrecsam

iv) Issue specific to single purpose authorities

iv) *Materion sy'n ymwneud yn benodol ag Awdurdodau Un Pwrpas*

v) General discussion

v) Trafodaeth gyffredinol



BACKGROUND TO THE CODE

CEFNDIR Y COD

- Nolan Report
- *Adroddiad Nolan*

- Local Government Acts 2000, 2003, 2006
- *Deddfau Llywodraeth Leol 2000, 2003, 2006*

- Model Codes of Conduct Orders in Wales
- *Gorchmynion Codau Ymddygiad Enghreifftiol yng Nghymru*

- Generic Application to Counties, Town and Community Councils and Single Purpose Authorities
- *Cymhwyso'n Gyffredinol i Gynghorau Sir, Tref a Chymuned ac i Awdurdodau Un Pwrpas*



ISSUES FOR TOWN AND COMMUNITIES

MATERION AR GYFER TREFI A CHYMUNEDAU

- **No history of voluntary Codes of Conduct**
- *Dim hanes o Godau Ymddygiad gwirfoddol*

- **Different knowledge/experience of Councillors**
- *Gwybodaeth/profiad Cynghorwyr yn amrywio*

- **Clerks with little experience**
- *Clercod sy'n brin o brofiad*

- **Little support/training**
- *Clercod sy'n brin o brofiad*

- **Inadvertent Breaches**
- *Achosion o Dramgwyddo'n Anfwriadol*



HOW DID WE ADDRESS THE ISSUES IN WREXHAM?

SUT YR AETHOM I'R AFAEL Â'R MATERION YN WRECSAM?

We came at it from three angles:

Trafodwyd y peth o dair ongl wahanol:



i) Dialogue with Clerks

i) Deialog â'r Clercod

ii) Offered advice to Members and Clerks

ii) Cynnig cyngor i'r Aelodau a'r Clercod

iii) Offered tailored training/awareness raising

iii) Cynnig hyfforddiant wedi'i gynllunio'n arbennig/codi ymwybyddiaeth

Success! No upheld complaints due to inadvertence/lack of knowledge of the Code since training began.

Llwyddiant! Ni chafwyd unrhyw gŵyn wedi'i chadarnhau oherwydd amryfusedd / diffyg gwybodaeth am y Cod ers dechrau'r hyfforddiant.

I recommend the approach.

Rwy'n argymell yr ymagwedd hon.

Materion Safonau i Awdurdodau Pwrpas Sengl

Standards Issues for Single Purpose Authorities



Awdurdodau Pwrpas Sengl
Single Purpose Authorities

- Beth yw Awdurdodau Pwrpas Sengl?
- *What are Single Purpose Authorities?*

  - Parciau Cenedlaethol sef Eryri, Penfro a'r Bannau.
  - *National Parks namely Snowdonia, Pembrokeshire and Brecon Beacons.*

  - Awdurdodau Tân ac Achub sef Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru
  - *Fire and Rescue Authorities namely North Wales, Mid and West Wales and South Wales.*

Awdurdodau Pwrpas Sengl
Single Purpose Authorities

- Prif wahaniaethau
- *Main differences*

  - Maint yr Awdurdod (niferoedd)
  - *Size of the Authority (numbers)*

  - Aelodau yn cael eu hapwyntio i'r Awdurdod
  - *Members are appointed to the Authority*

  - Ddim yn awdurdodau politicaidd
  - *Authorities are not "political" in nature*



Awdurdodau Pwrpas Sengl
Single Purpose Authorities

- Effaith
- *Effect*



  - Llai o waith delio gydag ymddygiad aelodau
  - *Generally less conduct issues*

  - Llai o gyfarfodydd o'r Pwyllgorau Safonau
  - *Standards committees generally meets less often*

  - Paragraff 12(2) o'r Côd yn berthnasol. Rhai o'r aelodau yn aelod o ddau awdurdod
  - *Paragraph 12(2) of the Code is of relevance. Some of the members are members of two authorities*

Awdurdodau Pwrpas Sengl
Single Purpose Authorities

- Effaith
- *Effect*

  - Cofrestru buddiannau – gwahanol ffîn i'r Parc neu'r Gwasanaeth Tân o'i gymharu gyda'r Cyngor
  - *Register of interests – the Park or Fire Service has a different boundary to that of the Council*

  - Paragraff 10(2)(b) o'r Côd yn medru bod yn berthnasol
  - *Paragraph 10(2)(b) of the Code can be of relevance*



Awdurdodau Pwrpas Sengl
Single Purpose Authorities

- Sut mae hyn wedi gweithio yn Eryri?
- *How has this worked in Snowdonia?*

  - Maint y Pwyllgor
  - *Size of the committee*

  - Nifer o gyfarfodydd
  - *Number of meetings*

  - Hyblygrwydd
  - *Flexibility*



Awdurdodau Pwrpas Sengl
Single Purpose Authorities

- Rôl y Cadeirydd
- *Chairman's role*

- Codi ymwybyddiaeth o Safonau
- *Raising the profile of Standards*

- Hyfforddi aelodau newydd
- *Training new members*

- Aelod o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru
- *Member North Wales Standards Committees Forum*

- Yn adrodd nôl i'r Pwyllgor ar ddatblygiadau
- *Reports back to the committee on developments*

- Yn aelod o'r Panel Cwynion
- *Member of Complaints Panel*



Awdurdodau Pwrpas Sengl
Single Purpose Authorities

- Gwaith diweddar y Pwyllgor Safonau yn Eryri
- *Recent work of the Standards Committee in Snowdonia*

  - Wedi ystyried anghenion hyfforddiant aelodau newydd i'r Pwyllgor Cynllunio. Arweiniodd at newid yn Rheolau Sefydlog yr Awdurdod.
  - *Considered training needs of new members to the Planning Committee. Led to a change in the Authority's Standing Orders.*

  - Monitro hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad i'r aelodau newydd.
  - *Monitored training on the Code of Conduct for new members.*



CONFLICTS OF INTEREST – "THE TWIN HAT ISSUE"

GWRTHDARO BUDDIANNAU - "GWISGO DWY HET"

- **Membership of two relevant authorities dealing with aspects of the same matter**
- *Aelod o ddau awdurdod perthnasol sy'n ymdrin ag agweddau ar yr un mater*
- **Potential conflicts of interest**
- *Posibilrwydd o wrthdaro buddiannau*
- **No obligation not to participate at both bodies as a member of each e.g. Planning**
- ***Dim** rhwymedigaeth i beidio cymryd rhan yn y ddau gorff gan ei fod yn aelod o'r naill a'r llall, e.e. Cynllunio*
- **Be clear on your role at each body if you wish to preserve participation rights.**
- *Mynegwch yn glir beth yw eich rôl ar bob corff os ydych am gadw hawliau cyfranogi.*



- NB: Para. 10(2)(b) – conflict between your role "in taking decision" on behalf of your authority as a whole v. local interest!
- **DS:** Para. 10(2)(b) – gwrthdaro rhwng eich rôl "yn gwneud penderfyniad" ar ran eich awdurdod yn ei gyfanrwydd v. buddiant lleol!

REGISTRATION OF INTERESTS
COFRESTRU BUDDIANNAU

- **Gifts & Hospitality** applies to all relevant authorities
- ***Mae Rhoddion a Lletygarwch*** *yn berthnasol i'r holl awdurdodau dan sylw*

  - **Value threshold**
  - *Trothwy gwerth*

  - **Register within 28 days of receipt**
  - *Cofrestru cyn pen 28 diwrnod ar ôl derbyn*

NB: Para. 9(b) – Gifts/Hospitality which might reasonably place
you under an improper obligation.

DS: *Para. 9(b) – Rhoddion/Lletygarwch a allai olygu eich bod mewn dyled amhriodol i rywun.*



- **Interests Prerecording required at Counties and Single Purpose Authorities only ..... for now!**
- ***Buddiannau*** *Mae angen cofnodi'r rhain ymlaen llaw - yr Awdurdodau Sirol a'r Awdurdodau Un Pwrpas yn unig .....am y tro!*



- **All members declared interests at meetings must be recorded.**
- *Rhaid cofnodi'r holl fuddiannau a ddatgennir gan aelodau mewn cyfarfodydd.*

- **Clerk of Town/Community Council generally maintains this for the MO.**
- *Bydd Clerc Cyngor y Dref/y Cyngor Cymuned fel arfer yn cadw cofnod o hyn ar gyfer y Swyddog Monitro.*

- **Declarations must be made every time and in every relevant authority when a particular matter is discussed**
- *Rhaid gwneud datganiadau bob tro ac ym mhob awdurdod perthnasol wrth drafod mater neilltuol.*

NB: Democracy Bill and potential for on-line publication of register
DS: *Bil Democratiaeth a'r potensial i gyhoeddi cofrestr ar-lein*

NB2: Separate Ombudsman Guidance on interpretation of Code
DS2: *Canllaw ar wahân yr Ombwdsmon ar ddehongli'r Cod.*

GENERAL DISCUSSION

TRAFODAETH GYFFREDINOL

Copyright © 2020 Packt Publishing

Sylwadai i Gloi

Castell Caernarfon